

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Craffu ar Gyfrifon 2014-15**

Rhagfyr 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [SeneddArchwilio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru)

Twitter: [@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Craffu ar Gyfrifon 2014-15**

Rhagfyr 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Darren Millar (Cadeirydd)**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**  
Llafur Cymru  
Delyn



**Julie Morgan**  
Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**  
Llafur Cymru  
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gogledd Cymru

---

# Cynnwys

---

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion y Pwyllgor .....	6
1. Rhagymadrodd .....	13
2. Llyfrgell Genedlaethol Cymru.....	14
3. Amgueddfa Genedlaethol Cymru .....	24
4. Comisiwn y Cynulliad.....	38
5. Chwaraeon Cymru .....	53
6. Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2014-15.....	61
Atodiad A - Tystion.....	72



## Rhagair y Cadeirydd

---

Mae craffu ar gyfrifon yn ddarn o waith cymharol newydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol ac eleni yw'r ail achlysur yn unig i'r gwaith gael ei wneud. Mae'r Pwyllgor wedi parhau'n awyddus i sicrhau bod digon o waith craffu'n cael ei wneud ynglŷn â'r modd y defnyddir arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill.

Yr hydref hwn, ar ben cyfrifon Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, bu'r Pwyllgor yn craffu ar gyfrifon Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru. Cafodd pob sefydliad wahoddiad i sesiynau tystiolaeth gyda'r Pwyllgor. Bu'r gwaith hwn yn gyfle i'r Pwyllgor nid yn unig archwilio'r cyfrifon, ond hefyd ystyried materion ynglŷn â llywodraethiant a rheolaeth ariannol. Un thema drawsbynciol ar draws y cyfrifon eleni oedd ffocws yr holl sefydliadau cyhoeddus ar wella hygyrchedd eu cyfrifon cyhoeddus a chydbwysu hynny yn erbyn yr angen i fod yn dryloyw ac yn fanwl.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'n gwaith a'n canfyddiadau, ac yn gwneud nifer o argymhellion sy'n ceisio gwella llywodraethiant, sicrhau bod adroddiadau'n fwy tryloyw a sicrhau gwell gwerth am arian. Yn ychwanegol, ceir argymhellion penodol ar gyfer gwaith pob sefydliad. Rwy'n hyderus y bydd yr argymhellion yr ydym wedi'u gwneud o gymorth i'r sefydliadau perthnasol.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith craffu ar gyfrifon barhau'n nodwedd ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Cynulliad nesaf.

Darren Millar AC  
Cadeirydd

## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynllun gweithredu'r Llyfrgell Genedlaethol mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad PricewaterhouseCoopers a'r ffaith bod ymateb cyflawn wedi bod i bedwar o'r 11 o argymhellion. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n bwrw ymlaen â gwaith ar lywodraethiant a fydd yn ystyried ymateb y Llyfrgell Genedlaethol o adolygiad PricewaterhouseCoopers. Wrth bwysu a mesur ei hymateb i ganfyddiadau adolygiad PricewaterhouseCoopers, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i'r prosesau sydd gan y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer datgan buddiannau ar lefel y Bwrdd gan sicrhau bod y rhain yn gadarn i atal gwrthdaro buddiannau rhag codi.

(Tudalen 22)

**Argymhelliad 2.** Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch ymagwedd y Llyfrgell Genedlaethol at ymglyfreitha yn erbyn y contractwyr a fu'n gyfrifol am dân yn y Llyfrgell ym mis Ebrill 2013. Nid ydym wedi'n darbwyllo bod digon o waith gwerthuso wedi'i wneud i asesu costau ymglyfreitha o'i gymharu â'r tebygolrwydd o sicrhau achos llwyddiannus er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, yn enwedig o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith trwsio ar do'r Llyfrgell wedyn. Nid oedd yn glir o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor a oedd y Llyfrgell Genedlaethol yn debygol o adennill ei ffioedd cyfreithiol ac mae'r Pwyllgor yn credu bod angen esbonio hyn.

(Tudalen 22)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod tân 2013 wedi codi cwestiynau am drefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol, ac rydym yn argymhell y dylai'r rhain gael eu hadolygu ar fyrder i sicrhau bod y trefniadau yn y dyfodol yn gost-effeithiol ac yn lleihau colledion i'r pwrs cyhoeddus.

(Tudalen 23)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen mwy o eglurder ynghylch trefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol ac rydym yn argymhell y dylai trafodaethau gael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn.

(Tudalen 23)



**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos bod gan y Llyfrgell Genedlaethol gynllun pensiwn a chynllun dileu swyddi sy'n hael o'u cymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen edrych ar gynaliadwyedd y cynllun, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ac rydym yn argymhell y dylai'r Llyfrgell Genedlaethol adolygu hyn. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad ariannol yr Amgueddfa Genedlaethol yn cynnwys saith dangosydd lefel uchel sy'n ymwneud ag un o'r amcanion allweddol ym "Map Gweledigaeth" yr Amgueddfa. Er hynny, rydym yn pryderu nad yw rhai o'r targedau perfformiad yn ddigon ymestynnol, yn arbennig lle mae'r targedau wedi'u gostwng ers y llynedd. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 7.** Er ein bod yn nodi'r newidiadau sy'n wynebu'r Amgueddfa Genedlaethol, a'r effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y perfformiad, rydym yn argymhell y dylai'r Amgueddfa Genedlaethol adolygu'r targedau hyn y flwyddyn nesaf a gosod targedau uchelgeisiol sy'n fwy ymestynnol er mwyn ysgogi gwelliant a newid. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ystyriaeth yn cael ei rhoi gan yr Amgueddfa Genedlaethol i godi tâl am wasanaethau penodol, ond rydym yn credu bod rhaid i unrhyw daliadau beidio ag effeithio ar bolisi Llywodraeth Cymru ar fynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Rydym yn derbyn ac yn cymeradwyo'n llwyr y sicrwydd a roddwyd i ni gan y tystion y bydd yr Amgueddfa'n parhau â'i ymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth. Rydym yn argymhell na ddylai'r refeniw ddisodli incwm y gallai'r Amgueddfa ei golli ar ffurf cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac y dylid bod yn dryloyw yngylch sut mae'n cael ei ddefnyddio gan yr Amgueddfa. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cynllun pensiwn a chynllun dileu swyddi'r Amgueddfa Genedlaethol fel pe bai'n allbwyt o'i gymharu â chynlluniau sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. O gymharu hyn â'r anghydfod tâl parhaus gyda'r staff yn yr Amgueddfa sydd ar y cyflogau isaf, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith negyddol y mae hyn wedi'i chreu argraff ar y cyhoedd o'r Amgueddfa Genedlaethol, yn arbennig felly yng ngoleuni taliadau diweddar i staff uchaf yr amgueddfa ar adeg pan fo'n ymddangos bod

yna doriadau cyflog i'r staff isaf eu cyflogau yn yr Amgueddfa. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Amgueddfa Genedlaethol i ddatrys anghydfodau dros gyflog ac i wella cyflogau cyfartal ar draws y sefydliad. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch rhai o'r materion a godwyd yn y arolwg staffyr Amgueddfa Genedlaethol, yn arbennig o ran bwlio ac aflonyddu a lefel gyffredinol isel ysbryd y staff. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dîm uwch reoli'r Amgueddfa i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a'r ffaith eu bod yn mynd ati o ddifrif yn y materion hyn. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Amgueddfa barhau â'r gwaith hwn a chynnal arolwg staff arall ar adeg briodol i asesu a yw'r camau sy'n cael eu cymryd yn arwain at welliant ac i nodi meysydd lle y gall fod angen rhagor o welliannau. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn falch o weld rhai o'r newidiadau a wnaeth Comisiwn y Cynulliad i ddiwyg ei ddogfennau cyfrifon er mwyn gwella hygyrchedd a thryloywder i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu defnyddio system goleuadau traffig i ddangos perfformiad ar yr olwg gyntaf a defnyddio hysbysluniau a 'digestible pieces of information'. Serch hynny, rydym yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cynnwys dogfen grynodedb fel rhan o gyflwyno'i gyfrifon yn y dyfodol. (Tudalen 50)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gomisiwn y Cynulliad i ateb gofynion y Trysorlys o ran sicrhau bod adroddiadau'n symlach ac yn fwy tryloyw. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r gwaith hwn gael ei adolygu a'i fonitro'n agos i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu bodloni. (Tudalen 50)

**Argymhelliad 13.** Ystyriodd y Pwyllgor bryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd gwefan y Cynulliad, yn arbennig o gofio pwysigrwydd gwybodaeth ar-lein o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i fynd i'r afael â'r mater hwn ac mae'n argymhell y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud ar fyrder i sicrhau bod gwefan y Cynulliad mor hwylus a hygyrch â phosibl i'r defnyddiwr. (Tudalen 50)

**Argymhelliad 14.** Hoeliodd y Pwyllgor sylw ar ei bryderon blaenorol ynghylch uchelgais parhaus Comisiwn y Cynulliad i wario bob amser hyd at o fewn un y cant o'r gyllideb. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y

mater hwn eto a chlywodd yr esboniad ar gyfer yr ymagwedd hon gan Brif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymagwedd hon yn parhau ond nid yw wedi'i argyhoeddi bod yr ymagwedd yn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran defnyddio adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad fonitro'r ymagwedd hon yn ofalus, a lle gwelir diffyg effeithlonrwydd arwyddocaol y dylai'r adnoddau hyn gael eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus. (Tudalen 50)

**Argymhelliad 15.** Bu'r Pwyllgor yn trafod ymagwedd Comisiwn y Cynulliad at staffio ac er bod absenoldeb salwch y staff yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus yr ydym yn pryderu bod y lefelau yn uwch na tharged Comisiwn y Cynulliad. Rydym yn nodi siom Comisiwn y Cynulliad ynglŷn â'r ffigurau hyn ond yn croesawu'r ffaith bod partneriaid busnes adnoddau dynol wedi'u cyflwyno i weithio gyda rheolwyr llinell i wella'r rheolaeth ar absenoldeb. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai lefelau absenoldeb oherwydd salwch barhau i gael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd yn cael effaith gadarnhaol ac i nodi ble y gall fod angen rhagor o waith. (Tudalen 51)

**Argymhelliad 16.** Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor nad oedd cynlluniau i redeg cynllun dileu swyddi, er ein bod yn deall nad oedd y posibilrwydd o redeg cynllun yn y dyfodol wedi'i ddiystyru. Mewn llythyr pellach at y Pwyllgor, cawsom wybod y bydd Comisiwn y Cynulliad yn rhedeg cynllun dileu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd iddo o ran y gwaith sydd wedi'i wneud i ystyried a oes angen cynllun a beth fydd diben y cynllun. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi'r newyddion diweddaraf iddo erbyn haf 2016 am gynnydd y cynllun a rhagor o fanylion am sut mae'r paratodau at y cynllun wedi cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad o'i gynlluniau blaenorol ac o'r astudiaeth Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau dileu swyddi. (Tudalen 51)

**Argymhelliad 17.** Ystyriodd y Pwyllgor y digwyddiad twyll a ddigwyddodd yn 2013-14 a'r effaith ddilynol a gafodd ar gyfrifon 2014-15 ac yn benodol colled o £29,000 yn 2013-14 a £71,000 yn 2013-14. Mae'r Pwyllgor yn siomedig mai swm bach yn unig o'r colledion hyn a all gael ei adennill ac mae'n dal yn bryderus nad oedd y prosesau a oedd ar waith ar y pryd yn ddigon cadarn i atal y twyll

rhag digwydd. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ei bod wedi cymryd cyfnod o dri mis cyn i'r twyll gael ei ganfod. Er hynny, rydym yn nodi'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i gryfhau ei reolaethau o ran cofnodi a dilysu data ei gyflenwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu ei reolaethau yn y maes hwn i sicrhau bod mesurau rheoli o'r fath yn dal yn gadarn. Rydym yn argymhell parhau i gyfathrebu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu rheoli i helpu i atal digwyddiadau twyll rhag digwydd yn y dyfodol. (Tudalen 51)

**Argymhelliad 18.** Edrychodd y Pwyllgor ar y dulliau rheoli yn fframwaith llywodraethu Chwaraeon Cymru ac yn benodol ar benodi Aelodau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at bwysigrwydd amrywiaeth ar y Bwrdd a'r angen i'r Bwrdd feddu ar y set sgiliau gywir. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni hyn ac yn argymhell y dylai Chwaraeon Cymru barhau â'i ymrwymiad i wella amrywiaeth y Bwrdd a chyflawni ei darged o gydbwysedd 50:50 yn y gymhareb rhywedd erbyn 2020. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 19.** Ystyriodd y Pwyllgor fframwaith llywodraethu mewnol Chwaraeon Cymru ac mae'n nodi'r gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru i sicrhau bod y fframwaith yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Swyddog Cyfrifyddu er mwyn i'r cyfrifon blynyddol gael eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhaglen waith archwilio mewnol Chwaraeon Cymru wedi nodi materion rheoli ond mae'n fodlon ar y gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r risgiau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Chwaraeon Cymru i reoli'r risgiau hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r atebion arloesol a nodwyd gan Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â risg ac mae'n argymhell y dylai'r atebion hyn gael eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y risgiau'n cael eu lliniaru a, lle nad ydyn nhw'n cael eu lliniaru, dod o hyd i'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael eu dileu'n gynnar. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 21.** Wrth fynd ar drywydd ei argymhelliad yn ei waith craffu ar gyfrifon 2013-14, ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd llywodraeth Cymru at wella cyflwyniad ei chyfrifon i sicrhau bod

gwybodaeth yn ddealladwy yn rhwydd ac yn hwylus i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru heb wneud unrhyw newidiadau mawr eto yng nghyflwyniad ei chyfrifon ond mae'n nodi ei bwriad i wireddu ei hymrwymiad i wneud hynny. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar symleiddio'i chyfrifon er mwyn gwireddu ei hymrwymiad i lunio set symlach o gyfrifon gyda naratif cryfach erbyn y cyfnod cyfrifyddu nesaf. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld newidiadau arwyddocaol yn deillio o brosiect mireinio Llywodraeth Cymru ac mae'n argymhell bod angen mwy o fanylion, mewn Atodiadau os oes angen hynny, yn y cyfrifon ynghylch dadansoddi gwariant ac y dylai'r cyfrifon yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion am y grantiau a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan wariant rhaglenni. (Tudalen 70)

**Argymhelliad 22.** O ran gwella hwylustod i'r cyhoedd a thryloywder cyfrifon Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu dolenni at ei dogfennau cyfrifon ar-lein sy'n dangos llif yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn i'r cyhoedd allu 'dilyn' yr arian a gweld sut mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid. (Tudalen 70)

**Argymhelliad 23.** Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynaliadwyedd ac, er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion a gynhwysir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru'n dangos gostyngiad parhaus mewn allyriadau carbon neu dunelli o wastraff, heblaw'r gwmp fawr o ran defnyddio trydan, mae'n nodi nad yw'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ffigurau gwastraff yn y cyfrifon yn rhesymol ond rydym yn credu y dylai gwaith ychwanegol gael ei wneud i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o leihau'r defnydd ar ynni ar draws ei hystâd ac ystyried opsiynau arloesol i gyflawni hyn. (Tudalen 70)

**Argymhelliad 24.** Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli prosiectau ac yn benodol materion ynghylch y prosesau sydd ganddi ar gyfer adolygu contractau cyn i ddyn nhw ddod i ben er mwyn sicrhau mai'r opsiynau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian sy'n cael eu dewis. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ffrwd waith o dan y rhaglen 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol' i nodi materion o fewn prosesau caffael

Llywodraeth Cymru ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Er hynny, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y gwaith hwn yn parhau ac yn faes lle mae angen gwelliant. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am gynnydd y gwaith hwn. (Tudalen 71)

**Argymhelliad 25.** Ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau ac mae'n credu bod enghreifftiau o hyd o achosion lle mae angen gwella prosesau rheoli grantiau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau. (Tudalen 71)

## 1. Rhagymadrodd

---

1. Yn ystod 2014, bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar gyfrifon blynyddol nifer o gyrff ar gyfer y cyfnod 2013-14. Dyma faes gwaith newydd sy'n deillio o adolygiad y Pwyllgor o'i ddulliau gweithio yn 2013-14. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod digon o waith craffu'n cael ei wneud ar sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o gyrff cyhoeddus ar wahân. Cytunodd y Pwyllgor y bydd yn gwneud y gwaith hwn yn flynyddol, o bosibl gyda gwahanol sefydliadau.
2. Yn ychwanegol at Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, am y tro cyntaf eleni ystyriodd y Pwyllgor gyfrifon Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-15.
3. Llywodraeth Cymru sydd â'r gyllideb fwyaf o blith y cyfrifon y bu'r Pwyllgor yn craffu arnyn nhw, ac mae ei chyllideb o fwy na £15 biliwn yn cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol o Grant Bloc Cymru.
4. Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff corfforaethol sy'n darparu cymorth ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, ac mae'n cael ei ariannu o Grant Bloc Cymru, fel y pleidleisir drosto gan y Cynulliad Cenedlaethol. Aelodau'r Comisiwn yw'r Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad Cenedlaethol.
5. Yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, roedd Sandy Mewies wedi'i gwahardd o dan y Rheolau Sefydlog rhag ystyried materion ynglŷn â Chomisiwn y Cynulliad a oedd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Tynnodd yn ôl o sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda Chomisiwn y Cynulliad, ac nid yw wedi cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn.
6. Manylir ar ganfyddiadau'r Pwyllgor sy'n codi o graffu ar gyfrifon pob un o'r sefydliadau yn yr adroddiad hwn.

## 2. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

---

### Y cefndir

7. Mae cyfrifon Llyfrgell Genedlaethol Cymru<sup>1</sup> (y Llyfrgell) yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chafodd y farn archwilio ddiamod ei llofnodi ar 10 Gorffennaf 2015. Er hynny, fel yn achos y mwyafrif o archwiliadau, chafodd y naratif rhagarweiniol mo'i archwilio er bod yr Archwilydd yn ystyried a oes anghysondebau o bwys rhwng y naratif a'r cyfrifon.

8. Sefydlwyd y Llyfrgell gan Siarter Brenhinol ym 1907. Rhoddwyd Siarteri Atodol i'r Llyfrgell yn 1911, 1978 a 2006. Ym mis Gorffennaf 2013, pasiodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Benderfyniad Arbennig i ddiwygio a newid Statudau'r Siarter Brenhinol. Mae'r Llyfrgell hefyd yn elusen gofrestredig ac yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Prif amcan y Llyfrgell yw:

“... casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.”<sup>2</sup>

9. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon llythyr cylch gorchwyl<sup>3</sup> i'r Llyfrgell bob blwyddyn, gan roi barn y Llywodraeth ynghylch y disgwyliadau o ran y cyfeiriad strategol, y blaenoriaethau a'r cyllid perthynol. Lluniodd y Llyfrgell gynllun gweithredu ar gyfer 2014-15 ac mae'r strategaeth yn nodi'r amcanion allweddol a ganlyn ar gyfer 2014-15:

- Arwain trafodaeth genedlaethol am y potensial i sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru;
- Bod yn flaengar wrth ddatblygu cyfleoedd masnachol ac edrych ar ffrydiau incwm newydd;
- Datblygu Rhaglen Partneriaeth Gymunedol gydag eraill yn y sector cyhoeddus a chyfranogi mewn ymchwil ryngwladol;

---

<sup>1</sup> [Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyfrifon Blynyddol 2014-15](#)

<sup>2</sup> [Siarter Frenhinol 2006, paragraff 4](#)

<sup>3</sup> [Llythyr cylch gorchwyl blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cymru, 2014-15](#), (Chwefror 2014)



- Datblygu'r Gwasanaeth Cadwraeth a Chadwedigaeth Ddigidol ar gyfer Prosiect Etifeddiaeth Ddogfennol Cymru.<sup>4</sup>

### **Llywodraethiant a Strategaeth**

10. Mae Datganiad Llywodraethiant y Llyfrgell yn nodi bod Fframwaith Llywodraethiant ffurfiol wedi'i fabwysiadu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2013, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd sy'n ymwneud â Rheoli Risg. Mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell wyth o ymddiriedolwyr a benodir gan Lywodraeth Cymru a saith a benodir gan y Llyfrgell. Un pwyllgor sefydlog sydd gan y Llyfrgell, sef y Pwyllgor Archwilio.

11. Ym mis Mai 2015, gofynnodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ar y pryd i'r archwilwyr mewnol gynnal adolygiad cydymffurfio o'r broses Caffael Nwyddau a Gwasanaethau yn yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus mewn ymateb i bryderon bod rheolau a chanllawiau wedi'i torri.

12. Er gwaethaf fframwaith rheoli pendant, amlygodd adroddiad yr archwilwyr mewnol fod yna gryn dystiolaeth o beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau, a oedd wedi arwain at y methiant i sicrhau gwerth am arian. Cafodd un uwch reolwr ac un aelod arall o'r staff eu hisraddio gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ar y pryd, gan arwain at wrandawriad mewn Tribiwnlys Cyflogaeth lle dyfarnwyd bod y ddau hawliwr wedi'u diswyddo'n annheg a bod y ddau wedi gwneud cyfraniad at eu diswyddiad.

13. Cyn y Tribiwnlys, roedd un o'r swyddogion wedi ymddiswyddo a gwnaeth y llall gais llwyddiannus am dâl dileu swydd gwirfoddol ac ymadawodd â gwasanaeth y Llyfrgell ar ddiwedd mis Mawrth 2015.

14. Yn sgil y Tribiwnlys, cafodd y naill aelod o staff daliad iawndal o £71,890 a chafodd y llall daliad dileu swydd o £53,498, a thaliad iawndal o £28,460.

15. Comisiynodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr PricewaterhouseCoopers (PwC) i adolygu polisi disgyblu'r Llyfrgell a materion eraill. Daeth yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, i'r casgliad:

“Mae ein hadolygiad wedi nodi y gellid bod wedi ymdrin â'r broses ddisgyblu a'r hawliadau canlynol a'r Tribiwnlys

---

<sup>4</sup> [Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cynllun Strategol, 2014 - 2017](#)

Cyflogaeth yn fwy effeithiol. Nodir materion yn yr adolygiad sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a diwylliant y Llyfrgell a all atal y Llyfrgell rhag symud ymlaen os na fydd yn ymdrin â hwy.”

16. Roedd y canfyddiadau allweddol eraill yn cynnwys:

- Ni lwyddodd polisïau na gweithdrefnau'r Llyfrgell i hwyluso proses o ymdrin â'r materion a nodwyd yn effeithiol;
- Mae angen datblygu sgiliau a galluoedd rheolwyr ymhellach;
- Ni chaiff prosesau rheoli perfformiad ac arfarnu staff eu cymhwyso'n gadarn nac yn gyson er mwyn sicrhau gwelliant; a
- Mae angen i'r diwylliant newid er mwyn i'r Llyfrgell symud ymlaen.

17. Holodd y Pwyllgor dystion ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau yn adroddiad PwC, a dywedwyd wrtho:

“There were eleven recommendations made by PwC in that governance report, all of which were duly accepted by the board...the board instigated or created a taskforce consisting of various members of the board of trustees, together with an executive member of staff, who have then gone on to deal with those recommendations.”<sup>5</sup>

18. Ymhellach:

“...out of the eleven recommendations, four have already been completed and the other seven are ongoing, several of which are out to consultation with unions and at that sort of stage. So, there's been a fair degree of progress made in a reasonably short period of time, which the board was pleased to note.”<sup>6</sup>

19. Esboniodd y tystion fod yr ymatebion i'r pedwar argymhelliad oedd wedi'u cwblhau yn ymwneud â hyfforddiant a chanllawiau i'r staff ynghylch proses arfarnu; cofnodi datganiadau buddiannau yn glir ar sail barhaus; arfarniad perfformiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ar

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 22 Medi 2015

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 22 Medi 2015

y pryd; a rhaglen graidd o hyfforddi a datblygu i'r rheolwyr gyda hyfforddiant penodol ar gaffael a hyfforddiant.<sup>7</sup>

20. Yn ystod yr holi, edrychodd y Pwyllgor ymhellach ar bryderon a godwyd yn adroddiad PwC ynghylch datgan buddiannau gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac yn benodol y pryderon a godwyd am fod un Aelod o Fwrdd y Llyfrgell Genedlaethol yn bartner yn ffym gyfreithiol Geldards – sef y ffym gyfreithiol a gyfarwyddwyd i weithredu mewn perthynas ag achos tribiwnlys y Llyfrgell. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a oedd yr Aelod Bwrdd hwn yn bresennol pan benderfynodd y Bwrdd ddyfarnu'r contract i Geldards.

21. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Aelod o'r Bwrdd wedi ymneilltuo o'r holl drafodaethau ar unrhyw faterion yn ymwneud â Geldards.<sup>8</sup> Er hynny, edrychodd yr Aelodau ymhellach ar broses caffael gwasanaethau cyfreithiol gan Geldards. Esboniwyd i'r Pwyllgor fod ymarfer caffael ar y cyd wedi'i gyflawni gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gaffael gwasanaethau cyfreithiol tua thair blynedd yn ôl ac mai Geldards oedd y cwmni llwyddiannus.<sup>9</sup>

### **Yr Ymagwedd at Reolaeth Ariannol a Chyllid**

22. Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth grant anghyfyngedig o £10.541 miliwn ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol yn 2014-15, sef cynnydd o £420,000 ar 2013-14. Mae Nodyn 2 i'r cyfrifon yn dweud bod cymorth grant ychwanegol o £600,000 wedi'i dderbyn yn ystod 2014-15 ac y caiff y cymorth grant ei leihau i £300,000 yn 2015-16. Mae nodyn 12 yn dweud y caiff cyllid *Buddsoddi i Arbed* ei dalu drwy gyfrwng cymorth grant is yn 2015-16.

23. Nododd llythyr cylch gorchwyl 2015-16 gan Lywodraeth Cymru, ym mis Ionawr 2015, y byddai £10.141 miliwn o gyllid anghyfyngedig ar gael yn 2015-16.

24. Yn 2014-2015, darparodd Llywodraeth Cymru £4.088 miliwn o grantiau cyfalaf cyfyngedig hefyd. Cafodd y Llyfrgell grantiau cyhoeddus hefyd o £1.684 miliwn a £572,000 o incwm masnachu. Rhoddion a chymynroddion yw'r ffynonellau incwm eraill, sef £1.244 miliwn ac incwm o fuddsoddiadau o £188,000.

---

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 22 Medi 2015

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 22 Medi 2015

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 22 Medi 2015

25. Roedd y balans yn nghronfeydd y Llyfrgell ar ddiwedd 2014-15 yn fwy nag £88 miliwn, i fyny mwy na £3 miliwn ers 2013-14. Er hynny, dim ond £15 miliwn o'r rhain sy'n gronfeydd wrth gefn a all gael eu defnyddio am fod arian parod cyfatebol ar gael. Dim ond yn unol ag unrhyw delerau sydd wedi'u pennu mewn cymynroddion penodol y gall cronfeydd cyfyngedig preifat y Llyfrgell gael eu defnyddio.

26. Roedd y Pwyllgor yn dymuno canfod sut mae'r Llyfrgell yn rheoli ei hadnoddau anrhagweladwy er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a sut mae'n defnyddio incwm anrhagweladwy megis rhoddion, cymynroddion ac incwm o fuddsoddiadau.<sup>10</sup>

27. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

"...because of the cash carry-over rules, it's very difficult to have a reserves policy for the bulk of our expenditure, the revenue costs, but what we do have are private funds, which have come from donations and legacies over the years. So, what we plan to do is use those private funds to subsidise our running costs and our capital expenditure over the coming years, and also, we've got plans to make bids to the Lottery for some fairly big schemes, so we'll be able to use our private funds as match funding."<sup>11</sup>

28. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd:

"We had a big legacy in the previous year, which you obviously can't predict, but we will be drawing out substantial sums, between £700,000 and £900,000 per annum over the next 5 years to subsidise the Library's activities."<sup>12</sup>

### **Ailstrwythuro'r staff a'r Cynllun Pensiwn**

29. Lansiodd y Llyfrgell raglen ailstrwythuro corfforaethol ym mis Medi 2014 mewn ymateb i ostyngiadau mewn cyllid grant a newidiadau yn anghenion y defnyddwyr, y defnyddwyr posibl a'r rhanddeiliaid. Cynigiodd y Llyfrgell gynllun diswyddo gwirfoddol i'w staff yn ystod y flwyddyn ac ymadauodd naw aelod staff cyn 13 Mawrth 2015 ar gost o £601,544. Derbyniodd 18 aelod arall o staff delerau'r cynllun a byddant yn ymadael yn ystod blwyddyn ariannol

---

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2015, paragraff 156

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2015, paragraff 157

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2015, paragraff 157

2015-16 ar gost o £752,230. Mae'r costau hyn i gyd wedi'u disgrifio yng nghyfrifon 2014-15. Cafodd y Llyfrgell £500,000 o arian *Buddsoddi i Arbed* ar gyfer y cynllun diswyddo hwn.

30. Yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*,<sup>13</sup> a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, rhoddwyd nifer o argymhellion a gwybodaeth gymaradwy. Mae'r ffigurau uchod yn awgrymu bod cynllun dileu swyddi'r Llyfrgell wedi costio £50,140 ar gyfartaledd am bob ymadawiad. Mae hynny'n fwy na dwbl y ffigurau cyfartalog a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ond ychydig yn unig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae'n anodd cymharu'n uniongyrchol rhwng y ffigurau hyn. Mae nifer o resymau pam y mae cost pecynnau ymadael cynnar yn amrywio rhwng sectorau a rhwng cyrff cyhoeddus unigol ac mae'n rhaid nodi bod y ffigurau'n cymharu cyfnodau amser gwahanol.

31. Mae gan y Llyfrgell gynllun pensiwn a ariennir sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniol sy'n darparu buddion ar sail y tâl pensiynadwy terfynol ar yr oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r Llyfrgell ac maent wedi'u buddsoddi gyda Legal and General. Ar 31 Mawrth 2013 y cafwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf. Cafodd cyfraniad y Llyfrgell ei ostwng i 20.6% o'r cyflog pensiynadwy, gyda 6% arall o'r cyflog pensiynadwy'n cael ei dalu gan y staff fel cyfraniad sylfaenol drwy drefniant aberthu cyflog.

32. Yn ei Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2014-15 mae'r Llyfrgell yn nodi bod newidiadau yn ei chynllun pensiwn wedi bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ei fod yn "gynaliadwy" yn unol ag adroddiad Hutton.<sup>14</sup> Mae'r cyfrifon yn datgan hyn:

"Ymddengys nad oedd y ffaith fod y Cynllun wedi'i gyllido'n llwyr yn ffactor yn yr asesiad, ac roedd Ymddiriedolwyr yn bryderus i glywed fod y newidiadau a wnaed i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil wedi arwain at gynnydd treth o 2% yn uwch na'r Llyfrgell o ran cyfraniad y cyflogwr. Mae'r Llyfrgell yn ceisio

---

<sup>13</sup> [Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru](#) (Chwefror 2015)

<sup>14</sup> [Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus: Yr Arglwydd Hutton o Furness](#) (Mawrth 2011)

cael ei heithrio rhag y newidiadau hyn, a chyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys.”<sup>15</sup>

33. O gofio'r ffigurau hyn, cododd y Pwyllgor bryderon bod taliadau diswyddo gwirfoddol y Llyfrgell yn llawer uwch na chyfartaledd y sector cyhoeddus. Mewn ymateb, dywedodd y Llyfrgell wrth y Pwyllgor:

“Mae'r taliadau yn uwch, ond rydym ni'n defnyddio hen system y gwasanaeth sifil sy'n mynd yn ôl flynyddoedd maith. Rydym ni'n ymwybodol bod y cynllun yn un gostus iawn.”<sup>16</sup>

34. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“Rydym wedi newid y cynllun rywfaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda phobl sy'n dod yn nes at yr oed ymddeol. Rydym wedi newid y cynllun: unwaith maen nhw'n mynd heibio'r oedran 57, maen nhw'n colli mis o *redundancy* am bob mis maen nhw'n gweithio. Felly, erbyn iddyn nhw gyrraedd 60 oed, byddan nhw'n cael chwe mis o gyflog fel tâl diswyddo. So, rŷm ni wedi newid rywfaint ar y cynllun, ond mae'r cynllun yn un drud.”<sup>17</sup>

35. Roedd yr Aelodau'n pryderu na chawsai'r cynllun ei newid cyn i swyddi staff gael eu dileu ac mae'n ymddangos bod hyn wedi bod o fudd i'r aelodau hynny o'r staff a oedd yn ymadael. Hefyd, heriodd yr Aelodau gynaliadwyedd polisi pensiwn sy'n caniatáu i'r staff ymddeol yn 60 oed.

36. Esboniodd y tystion:

“We've looked at the pension scheme over the years and assessed the options, and actually changing the retirement age doesn't make that much difference, because, if people get to 60, they might have worked for 20 years and they get a pension based on 20 years of service. If their retirement age is 65, they get a bigger pension because they've worked 25 years perhaps, so they get a bigger pension for a shorter period. So, we have looked at this and it doesn't actually make an awful lot

---

<sup>15</sup> Cyfrifon Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2014-15, paragraff 7.4

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 253, 22 Medi 2015

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 254, 22 Medi 2015

of difference to the costs of running the scheme, but it is an option.”<sup>18</sup>

37. Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch natur hael y trefniadau pensiwn hyn a'r trefniadau dileu swyddi hyn, a'u bod yn ymddangos yn 'rhyfeddol' hyd yn oed yn ôl safonau'r sector cyhoeddus. Nododd y Pwyllgor fod y Llyfrgell yn allbwynt gwahanol iawn o safbwynt graddfa a maint costau cyfartalog pob ymadawiad yn y sefydliad – yn ail i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn unig.

### **Y tân ym mis Ebrill 2013**

38. Mae Nodyn 22 i gyfrifon 2014-2015 yn dweud bod y Llyfrgell wedi cyfarwyddo'i chynghorwyr cyfreithiol i fynd ar drywydd hawliad am gostau yn erbyn contractwr a fu'n gyfrifol am achosi tân a ddigwyddodd yn y Llyfrgell ym mis Ebrill 2013. Er hynny, bernir bod canlyniad yr ymgyfreitha hwn yn rhy ansicr i gydnabod unrhyw gostau a adenillir yn y cyfrifon. Mae £39,000 o wariant ar y to yn ymwneud â'r costau cyfreithiol a'r costau eraill a ysgwyddwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r tân ar y to. Cafodd y contractwyr a ddechreuodd y tân yn anfwriadol eu diddymu yn 2013 ac nid yw'r cyfrifon yn cyfeirio at yswiriant atebolrwydd y contractwr.

39. Ystyriodd y Pwyllgor y dyfarniadau ynglŷn â gwerth am arian a wnaed gan y Llyfrgell wrth benderfynu ymgyfreitha mewn perthynas â'r tân yn 2013, gan ofyn am y newyddion diweddaraf am yr hawliad yn erbyn y contractwr a fu'n gyfrifol am achosi'r tân. Gofynnodd y Pwyllgor pa mor debyg oedd hi bod modd adennill arian uwchlaw'r costau cyfreithiol ac a oedd unrhyw asesiad wedi'i wneud a oedd y cais yn debygol o lwyddo.

40. Cadarnhaodd y tystion fod y ffioedd cyfreithiol hyd yn hyn yn £75,000 ac oherwydd rheolau ar indemniad y Llywodraeth nad yw'r Llyfrgell yn cael codi yswiriant masnachol a'i bod hi felly'n gwbl gyfrifol am gostau'r achos cyfreithiol.<sup>19</sup> Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Bwrdd y Llyfrgell wedi holi'r Bwrdd Gweithredol ynghylch a oedd y Llyfrgell wedi gwario mwy ar ffioedd cyfreithiol nag y byddent yn ei adennill.<sup>20</sup>

---

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 22 Medi 2015

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 41 – 43, 22 Medi 2015

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 22 Medi 2015

“There are several legal cases that could be brought and this is a case against the company in liquidation... We’ve also asked the Welsh Government recently about two possible courses of legal action: one is against the insurers of the company and one is against the insurers of the architect who was supervising the contract. Now potentially, we could put in big claims against those insurers, but it would be very expensive to run.”<sup>21</sup>

41. Ychwanegodd y tystion:

“We’ve got options to go after the insurers, but we could end up spending £0.5million on those cases, and we’ve said to the Welsh Government that we’re not prepared to commence that legal action unless the Welsh Government would actually underwrite the cost, because we can’t afford that kind of cost.”<sup>22</sup>

42. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen o waith trwsio yn yr amgueddfa a oedd yn cynnwys y gwaith atgyweirio angenrheidiol ar do’r Llyfrgell.

**Ein barn ni**

**Mae’r Pwyllgor yn croesawu cynllun gweithredu’r Llyfrgell Genedlaethol mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad PricewaterhouseCoopers a’r ffaith bod ymateb cyflawn wedi bod i bedwar o’r 11 o argymhellion. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod Archwilydd Cyffredinol Cymru’n bwrw ymlaen â gwaith ar lywodraethiant a fydd yn ystyried ymateb y Llyfrgell Genedlaethol o adolygiad PricewaterhouseCoopers. Wrth bwysu a mesur ei hymateb i ganfyddiadau adolygiad PricewaterhouseCoopers, mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i’r prosesau sydd gan y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer datgan buddiannau ar lefel y Bwrdd gan sicrhau bod y rhain yn gadarn i atal gwrthdaro buddiannau rhag codi.**

**Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch ymagwedd y Llyfrgell Genedlaethol at ymglyfreitha yn erbyn y contractwyr a fu’n gyfrifol am dân yn y Llyfrgell ym mis Ebrill 2013. Nid ydym wedi’n darbwyllo bod digon o waith gwerthuso wedi’i wneud i asesu**

---

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 22 Medi 2015

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 22 Medi 2015



costau ymgyfreitha o'i gymharu â'r tebygolrwydd o sicrhau achos llwyddiannus er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, yn enwedig o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith trwsio ar do'r Llyfrgell wedyn. Nid oedd yn glir o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor a oedd y Llyfrgell Genedlaethol yn debygol o adennill ei ffioedd cyfreithiol ac mae'r Pwyllgor yn credu bod angen esbonio hyn.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod tân 2013 wedi codi cwestiynau am drefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol, ac rydym yn argymhell y dylai'r rhain gael eu hadolygu ar fyrder i sicrhau bod y trefniadau yn y dyfodol yn gost-effeithiol ac yn lleihau colledion i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen mwy o eglurder ynghylch trefniadau yswiriant y Llyfrgell Genedlaethol ac rydym yn argymhell y dylai trafodaethau gael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos bod gan y Llyfrgell Genedlaethol gynllun pensiwn a chynllun dileu swyddi sy'n hael o'u cymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen edrych ar gynaliadwyedd y cynllun, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ac rydym yn argymhell y dylai'r Llyfrgell Genedlaethol adolygu hyn.

### 3. Amgueddfa Genedlaethol Cymru

---

#### Y cefndir

43. Cafodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Amgueddfa) ei sefydlu gan Siarter Brenhinol ym 1907 ac mae'n elusen gofrestrdig. Cafodd y Siarter ei diwygio ym 1991 a 2006.<sup>23</sup>

44. Mae'r Amgueddfa'n gweithredu'n uniongyrchol ar saith safle ledled Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Amgueddfa Werin Sain Ffagan; Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru; Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru; Amgueddfa Lechi Cymru; Amgueddfa Wlân Cymru; ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (sy'n perthyn i'r Amgueddfa ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe). Mae'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw yn agored i'r cyhoedd drwy apwyntiad.

45. Mae blaenoriaethau'r Amgueddfa wedi'u nodi yn y *Weledigaeth* a lansiwyd yn 2005-06 ond ymgynghorodd yr amgueddfa ar *Weledigaeth 10-mlynedd* newydd ar gyfer y dyfodol ym mis Mawrth 2015 i ddiweddarau'r blaenoriaethau hyn. Dyma'r pum ymrwymiad yr ymgynghorwyd yn eu cylch:

- Newid bywydau, trwy weithio gyda chyryff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu. (Gwneud gwahaniaeth i Gymru);
- Mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau. (Profiad amgueddfa);
- Mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgyssylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu. (Profiad ar-lein);
- Mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu. (Addysg a chreadigrwyd); ac
- Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol,

---

<sup>23</sup> [Siarter Frenhinol 2006](#)

cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt. (Cyfranogiad a chynhwysiant).<sup>24</sup>

46. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon llythyr cylch gorchwyl at yr Amgueddfa bob blwyddyn.<sup>25</sup> Mae hwn yn mynegi barn y Llywodraeth o ran y disgwyliadau yn nhermau'r cyfeiriad strategol, y blaenoriaethau a'r cyllid perthynol.

47. Bob blwyddyn bydd yr Amgueddfa'n cyhoeddi cynllun gweithredu<sup>26</sup> sy'n amlinellu cynlluniau manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel ymateb i'r llythyr cylch gorchwyl. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut mae blaenoriaethau'r Amgueddfa'n helpu i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru.

### **Perfformiad**

48. Mae adroddiad ariannol yr Amgueddfa<sup>27</sup> yn cynnwys saith o ddangosyddion lefel uchel sy'n ymwneud ag amcan allweddol ym "Map Gweledigaeth" yr Amgueddfa. Mae'r dangosyddion i gyd yn uwch na'r targed, heblaw am nifer yr ymweliadau â gwefannau. Cafodd dull cyfrif y dangosydd ynglŷn ag ymweliadau â'r we ei newid y llynedd i ddileu ymweliadau awtomataidd.

49. Ymhelaethodd y tystion ar y mesurau perfformiad hyn:

"We have a number of measures of success or—I hope not—failure. We both benchmark ourselves against other national museums and also identify qualitative and quantitative measures of success, and, obviously, visitor numbers is one of those. So, it goes from the really hard data around finances and numbers of people who visit, through to evaluations of education programmes and very qualitative work."<sup>28</sup>

50. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n pryderu a oedd y targedau perfformiad yn ddigon ymestynnol, yn arbennig o gofio bod y targedau hyn wedi'u gostwng mewn rhai achosion ers y flwyddyn flaenorol. Esboniodd y tystion:

---

<sup>24</sup> [Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol](#), Mawrth 2015

<sup>25</sup> [Llythyr cylch gorchwyl blynyddol Llywodraeth Cymru 2014-15](#), Ionawr 2014

<sup>26</sup> [Cynllun Gweithredol Amgueddfa Cymru 2014-15](#)

<sup>27</sup> [Adroddiad Blynyddol Amgueddfa Genedlaethol Cymru 2014-15](#)

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 22 Medi 2015

“I think one has to bear in mind that, in real terms, our budget has declined by over 25 per cent since 2010-11. So, what we’re doing is working very hard against a smaller income base to continue to sustain our visitor numbers and our services.”<sup>29</sup>

51. Ychwanegodd y tystion:

“...we did discuss the targets with the Welsh Government—and they do challenge us as well on those targets—but they were the targets that we agreed when we took into account the factors that were operating around us. We don’t believe that we’re setting unchallenging targets. I think that we are, however, challenging our staff to beat them, and I think it is a positive that we are managing to do that in many areas.”<sup>30</sup>

### ***Ymagwedd at Reoli Arian a Chyllid***

52. Mae llythyr cylch gorchwyl blynyddol yr Amgueddfa yn nodi’r cymorth grant y bwriadwyd trefnu ei fod ar gael am y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Yn 2014-15 roedd y cyllid hwn yn gyfystyr â £23 miliwn o refeniw, £538,000 ar gyfer prynu sbesimenau a £2.4 miliwn o gyllid cyfalaf. Cafwyd grantiau ychwanegol o £1.65 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Caerdydd. Ychwanegodd rhoddion a chymynroddion £3.25 miliwn arall, er bod y rhan fwyaf o’r cronfeydd hyn wedi’u cyfyngu o ran eu dibenion.

53. Cafwyd toriad o £200,000 yng nghymorth grant yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn.<sup>31</sup> Cafwyd adroddiad am hyn yn y wasg ym mis Medi 2014 a chafodd y toriad ei wneud yng Nghyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2015.

54. Mae unrhyw incwm cymorth grant sydd heb ei wario yn cael ei gario drosodd i’r flwyddyn ganlynol. Yr arian parod net a ddelid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £6.1 miliwn, i fyny o £4.1 miliwn ar 1 Ebrill 2014.

55. Mae’r llythyr cylch gorchwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn dangos mor hanfodol yw hi i gyrff diwylliannol nodi a defnyddio ystod ehangach o ffynonellau cyllid i ategu’r cymorth grant a roddir gan y

---

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 293, 22 Medi 2015

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 299, 22 Medi 2015

<sup>31</sup> [Museums Journal, 24 Medi 2014](#) (wedi’i gyrchu 26 Tachwedd 2015)

Llywodraeth. Dylai hyn gynnwys dulliau newydd ac arloesol o gynhyrchu incwm, yn ogystal â chwilio yn y sector cyhoeddus ehangach a'r sector preifat.

56. I ddeall sut mae'r Amgueddfa'n sicrhau'r gwerth gorau o'i hadnoddau anrhagweladwy, gofynnodd yr Aelodau i'r tystion ddweud a gafwyd unrhyw newidiadau yn y cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 ac os felly pa bryd y cawson nhw wybod am y newidiadau hyn. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am eglurhad ar sut mae'r Amgueddfa'n rheoli newidiadau o'r fath yn ystod blwyddyn er mwyn sicrhau bod ei hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon gan holi a fyddai hi'n chwilio mewn manau eraill am ffrydiau refeniw eraill a allai gael eu datblygu.

57. Esboniwyd mai prosiect Sain Ffagan oedd un o'r prif feysydd presennol ar gyfer cynhyrchu incwm i'r Amgueddfa. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

"We've got just short of £3 million that we're trying to raise from sponsorship and fundraising, over and above the money from Welsh Government and the Heritage Lottery Fund. We've managed—well, last year, we got just short of £2 million from additional sources; we're about £500,000 short of our target for St Fagans.

"So, we're 97 per cent, 98 per cent there. So, that's been a major area of fundraising."<sup>32</sup>

58. Ychwanegodd y tystion:

"...in terms of our income overall, we've always generated about £1 million, just from grants that come from other bodies to carry out work. What we've done over the last two years is to actually set specific targets for research income, which is net income, not simply turnover. And, for the first time, we set targets for revenue fundraising. So, by 2017-18, from a zero base, we anticipate that that will be £0.5 million, or more. Equally, with net research income, we currently have a turnover of about £1.2 million, but, in terms of net, it's less than

---

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 309, 22 Medi 2015

£100,000. So, we're moving now to a target of £400,000 a year."<sup>33</sup>

59. Nododd y tystion fod ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i godi tâl am wasanaethau penodol, gan esbonio ei bod yn amlwg bod rhaid i'r rhain fod yn wasanaethau gwerth ychwanegol. O gofio bod yr Amgueddfa'n dal yn ymrwymo i fynediad am ddim,<sup>34</sup> dywedodd y tystion y gallai rhai o'r taliadau hyn fod yn daliadau mynediad i arddangosfeydd arbenigol.<sup>35</sup>

60. Mewn ymateb, cododd yr Aelodau bryderon y gallai hyn danseilio polisi Llywodraeth Cymru ar fynediad am ddim i amgueddfeydd. Er hynny, cynigiodd y tystion sicrwydd bod cynhwysiant ac amrywiaeth, yn ogystal â goresgyn y rhwystrau sy'n wynebu llawer o bobl o ran defnyddio sefydliadau diwylliannol, yn dal yn bwysig ond:

"...we should use opportunities for earning income where we can, and then try to apply that, to be able to do more work, and be able to extend our services for the groups that we're targeting, who are under-represented as visitors – geographically and in other ways."<sup>36</sup>

61. Ychwanegodd y tystion:

"...the key thing is that we stick with our core purpose, and our new vision, is that we should inspire people and change lives. And both those two elements are crucial in this. I fundamentally believe that museums have an ethical responsibility to their public – in our case, the people of Wales – and our major, major task is to make a difference to Wales, in the positive whether it's economic, environmental, health and well-being, creative industries. So, all of our work is directed to that, to achieving that."<sup>37</sup>

62. Cadarnhaodd y tystion fod yna gynlluniau i godi tâl mynediad ar gyfer rhai o'r arddangosfeydd:

"We're about to experiment with a charge for the Treasures – adventures in Archaeology exhibition, which will open in

---

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 22 Medi 2015

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 313, 22 Medi 2015

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 314, 22 Medi 2015

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 317, 22 Medi 2015

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 318, 22 Medi 2015

January at Cathays Park. It will have the crystal skull and the hat, coat and whip from the Indiana Jones movies in it. It'll have a mummy, it'll have an allegedly cursed ring, which was given to Rider Haggard and inspired King Solomon's Mines, and many other things that we think will be very attractive to the public. So, we will make a charge for that exhibition, with concessions."<sup>38</sup>

63. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ganfod a fyddai'r tâl refeniw a geid o arddangosfeydd o'r fath yn cael ei ailfuddsoddi'n benodol at ddibenion penodedig gan yr Amgueddfa ac na fyddai hyn yn disodli incwm y gallai'r Amgueddfa ei golli ar ffurf cymorth grant gan Lywodraeth Cymru drwy gyflwyno ffioedd.

64. Dywedwyd wrth yr Aelodau:

"No. When we put our budget together, we look at all our possible sources of income, so, if you like, it's a corporate income pot there. Then we apply—and I would say that we apply as strongly as we possibly can, and are applying more—in investing in the work to try and tackle poverty or the impacts of poverty on people and the other areas that are social priorities."<sup>39</sup>

65. Cyfeiriodd yr Aelodau at yr £1.5 miliwn yn y cyfrifon a ddangoswyd fel cronfeydd preifat anghyfyngedig, gan holi a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw. Cafwyd yr esboniad hwn:

"In terms of the private funds, the answer, generally, is 'yes'. If they're unrestricted, it's definitely a 'yes'. The majority of our private funds do tend to be restricted; it tends to be for art purchases. So, for example, we have a fund for oil paintings pre-1800. A lot of our private funds at the moment have come from fundraising, trusts and donations for the St Fagans project, so a significant proportion of it at the moment is being held pending the redevelopment of the St Fagans site. But the particular one you picked out, the answer is 'yes'."<sup>40</sup>

---

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 319, 22 Medi 2015

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 321, 22 Medi 2015

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 405, 22 Medi 2015

66. Holodd yr Aelodau ynglŷn â gwerth uchel yr arian parod net, sef £6.1m, a oedd gan yr Amgueddfa ym mis Mawrth 2015. Esboniwyd bod y ffigur hwn wedi cynyddu o £4.1m i £6.1m er mwyn ariannu prosiect ailddatblygu safle Sain Ffagan.<sup>41</sup>

### **Rhaglen Newid a Staffio**

67. Rhoddodd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*<sup>42</sup> nifer o argymhellion a gwybodaeth gymaradwy. Amgueddfa Genedlaethol Cymru oedd â'r gost gyfartalog uchaf fesul ymadawiad, sef £100,042, a'r cyfnod ad-dalu hiraf o 28 mis, ar sail 28 o ymadawiadau, yn y cyfnod Ebrill 2010 i Ragfyr 2013.

68. Un rhan bwysig o Raglen Newid yr Amgueddfa Genedlaethol yw'r cynllun gwirfoddol ar gyfer dileu swyddi. Yn 2014-15, cymerodd 14 o weithwyr y cynnig o wella'u taliadau statudol yn ôl ffactor o 4. Y gost oedd £566,000, o'i gymharu â £939,000 yn 2013-14. Roedd costau straen<sup>43</sup> y cynllun pensiwn yn gyfystyr â £62,000.

69. Cost y cynllun diswyddo, felly, oedd £40,429 ar gyfartaledd am bob ymadawiad, neu £44,857 gan gynnwys costau straen pensiwn. Mae hynny ymhell uwchlaw'r ffigurau cyfartalog ar gyfer y sector cyhoeddus a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ond ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Llywodraeth Cymru.

70. Cyfeiriodd yr Aelodau at natur hael cynllun dileu swyddi'r Amgueddfa Genedlaethol gan danlinellu mai dyma'r un mwyaf hael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn allbwynt anghysbell a oedd bron dwbl cynllun y gwasanaeth sifil. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“We realised that we were an outlier and that we needed to change this. So, at the point at which this was identified by the Wales Audit Office, we already had plans in place to tackle this. We have since made those changes. We fully acknowledge that it was an outlier, fully acknowledge that it was out of step with the rest of the Welsh public sector. We now have a process in

---

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 410, 22 Medi 2015

<sup>42</sup> [Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru](#) (Chwefror 2015)

<sup>43</sup> Mae costau straen pensiwn (sydd hefyd yn cael eu galw'n gostau cyfalaf) yn digwydd pan geir prinder pendant yn lefel dybiedig y cyllid y mae ei angen er mwyn darparu budd pensiwn penodol. Mae costau straen yn aml yn digwydd pan fydd aelod yn tynnu ei fuddion lawer ynghynt na'r disgwyl.



place to change that. We will be going to consultation with our staff on the new severance scheme within weeks. We should be back in line at that point.”<sup>44</sup>

71. Er hynny, roedd yr Aelodau’n awyddus i wybod pam nad oedd newidiadau i’r cynllun wedi’u rhoi ar waith cyn i’r staff gael cynnig taliadau ymadael cynnar. Esboniodd y tystion:

“There was an immediacy to the issues. We’d embarked on, if you will, ten-year financial planning, which clearly means projections—scenarios based on assumptions. What that was already showing us was that our incoming resources were not sufficient to meet our expenditure. Hence why we’ve been using revenue reserves to do that. As part of the change programme, we signalled early through the consultation in 2013 that we would be looking at the pension scheme, the severance scheme and, also, as part of the change programme, a partial restructuring, which was the first part we completed. Unfortunately, as part of that restructuring there were fewer jobs than within our structure. In terms of the severance scheme, we had an immediacy in terms of the requirement to make savings to balance our budget against the time that it was going to take to change the severance scheme. So, we did run the two in parallel. As probably all of this committee is aware, those consultations and negotiations have been running for a considerable time.”<sup>45</sup>

72. Trafododd yr Aelodau yr argraff negyddol ymysg y cyhoedd ynglŷn â’r broses hon yn yr ystyr bod pecynnau cyflog hael yn cael eu rhoi i uwch aelodau o staff am ymadael tra oedd y staff ar y cyflogau isaf ar hyn o bryd yn wynebu toriadau yn eu cyflogau. Esboniodd y tystion:

“...the management, are identifying a wide range of different issues where we are outliers, where we need to update or make changes, and where we want to improve the service that we actually give to the people of Wales, to focus on these areas that really make a difference in people’s lives as well. It comes from a commitment to supporting those who need support—supporting the education programmes. In order to do that,

---

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 354, 22 Medi 2015

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 365, 22 Medi 2015

we're actually reengineering the whole organisation's work and re-focusing it. As part of that, we are having to make the savings, but we're trying to make them in ways that will preserve our services as best we can. There have been no redundancies among the lower paid group of staff. In the first wave of the change programme, they were not, in that way, affected at all by the changes, but we always did say that we were going to have to make savings on the front-of-house area as well, because it's more than half our staff."<sup>46</sup>

### **Ysbryd y staff ac absenoldeb**

73. 4.5% oedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, i lawr o 4.9% yn 2013-14. Cafodd arolwg staff ei gynnal ym mis Medi 2014, am y tro cyntaf ers 2011. Dywedodd stori yn y wasg ym mis Mehefin 2015:

"Devastating staff survey results at the body which runs Wales' main publicly owned Museums say that only 14% of workers have confidence in decisions made by directors.

"Against a background of restructuring and budget cuts, just 7% said change was being managed well, with 9% believing change was for the better.

"Senior management at National Museum Wales said they would be addressing findings relating to bullying and harassment as a matter of urgency.

"A spokeswoman for National Museum Wales said: "Almost 60% of the staff responded to the survey - nearly double the number who took part last time in 2011.

"As a result, the survey has provided us with robust data regarding what the organisation is doing well, as well as areas in need of improvement.

"95% of those who responded said that they're interested in what they do, 86% said they had good friendships at work and 83% said they feel trusted to carry out their jobs effectively."<sup>47</sup>

---

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 372, 22 Medi 2015

<sup>47</sup> [Wales Online, 12 Mehefin 2015](#) (wedi'i gyrchu 26 Tachwedd 2015)

74. Cafodd y Pwyllgor lythyr gan un o weithwyr cyflogedig y Big Pit ym Mlaenafon a dynnodd sylw at effaith y newidiadau mewn gwelliannau gweithio, yn enwedig ymysg gweithwyr shifft a gweithwyr isel eu cyflog, a diwygiadau posibl mewn pensiynau.<sup>48</sup>

75. Dywedwyd wrth y Pwyllgor yn ystod y sesiwn dystiolaeth fod anghydfod yn mynd ymlaen rhwng rheolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol ynghylch cynigion i leihau cyflogau'r penwythnos. Arweiniodd hyn at streic ar safleoedd yr Amgueddfa dros fis Awst<sup>49</sup> a mis Medi<sup>50</sup> eleni.

76. Hoeliodd cwestiynau'r Aelodau sylw ar ganlyniadau'r arolwg staff ac mai dim ond 14% o'r gweithwyr oedd â hyder mewn penderfyniadau a wnaed gan y cyfarwyddwyr, gan holi a oedd hynny wedi gwella ers i'r arolwg gael ei gynnal.

77. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r Amgueddfa'n cynnal arolwg arall ac mai un o'r egwyddorion yr oedden nhw'n ei dilyn oedd bod yn dryloyw gyda'u staff a'r cyhoedd.<sup>51</sup> Esboniodd y tystion fod yr arolwg staff yn cael ei gynnal yn benodol ar adeg pan fyddai hyder y staff ar ei isaf gan ddweud:

“We had already gone most of the way, but not entirely, through the first wave of the change programme, and that was affecting the curatorial staff, education staff and many others. We had already announced that we were going to be reviewing the front-of-house operations and looking at the severance scheme, the pension scheme and the other areas, too. So, that group of staff—the front-of-house staff—knew that there would be changes coming up as well. So, we chose, in some ways, the worst, but we believed the most important point to do a staff survey.”<sup>52</sup>

78. Awgrymodd yr Aelodau y gallech ddisgwyl mai dim ond gwelliannau a fyddai'n cael eu gweld mewn arolygon yn y dyfodol, os oedd canlyniadau'r arolwg staff cynddrwg ag y gallen nhw fod. Roedd yr Aelodau'n dal i bryderu am y niwed i enw da'r Amgueddfa yn sgil yr

---

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, 3 Mawrth 2015

<sup>49</sup> [Undeb y Gweithwyr Cyhoeddus a Masnachol - News and Events 13 Awst 2015](#) [wedi'i gyrchu 26 Tachwedd 2015]

<sup>50</sup> [Undeb y Gweithwyr Cyhoeddus a Masnachol - News and Events 4 Medi 2015](#) [Wedi'i gyrchu 26 Tachwedd 2015]

<sup>51</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 374, 22 Medi 2015

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 374, 22 Medi 2015

argraff gyhoeddus ynghylch pecynnau diswyddo hael i'r staff uwch a gostyngiadau yn eu tâl i'r staff isaf eu cyflog. Heriodd yr Aelodau yr Amgueddfa ar sut roedd yn bwriadu unioni'r argraff hon.

79. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gwaith yn cael ei wneud i newid cynllun taliadau premiwm yr Amgueddfa, gan danlinellu bod nifer o anghysonderau yn y cynllun rhwng y staff. Esboniwyd fel hyn:

“It’s not even fair between the staff; dependent upon which shift pattern you’re on and which rota you’re on, you get different pay. There are altogether 12 variants of our rota schemes operating across our seven sites. So, there is inequality between staff at the moment. There are staff who work at weekends who don’t get paid, there are other staff who do. Even among the lowest paid—the bulk of them do weekend working, nevertheless, there is about a quarter of them who don’t.”<sup>53</sup>

80. Manylodd y tystion ar gynlluniau i godi cyfradd sylfaenol y staff isaf eu cyflog ar ffurf y cyflog sylfaenol, nid dibyniaeth ar weithio ar y penwythnos, a hynny drwy gynnig 6 y cant uwchlaw'r 4 y cant a oedd eisoes wedi'i roi yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'r grŵp hwnnw o staff. Daeth y tystion i'r casgliad a ganlyn:

“...this is a financial storm that’s hitting the public sector. That we should be offering a 10 per cent pay rise to our lowest paid staff in the middle of that storm, I think, is a statement of commitment to them as a group of staff. I can acknowledge that they will see that other staff have been affected in different ways and we’ve made our savings in other areas by reducing the number of directors, for example.”<sup>54</sup>

81. Hefyd, roedd y tystion yn awyddus i bwysleisio ymrwymiad yr Amgueddfa i osgoi rhoi gwaith allan ar gontract a'r awydd i gadw'r staff cyflawn o fewn yr Amgueddfa.<sup>55</sup> Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“...in all this, what we’re trying to do is to shape and engineer the organisation, so that it will deliver on poverty; it will deliver on education, it will deliver on education; it will deliver on inclusion; health and wellbeing; improve the economy and

---

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 381, 22 Medi 2015

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 385, 22 Medi 2015

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 384, 22 Medi 2015

revive and develop St Fagans to become what we believe will be one of the great national history museums in the world, as well. We're all very proud of it already. I promise there will be even more to be proud of in two years' time when it fully opens. So, we are investing in the future for Wales, investing for the future of the museum and really trying to do our best for the lowest paid as well."<sup>56</sup>

82. O ran symud ymlaen, bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch y camau a oedd yn cael eu cymryd o ran rheoli newid a gwella hyder y staff ym mhenderfyniadau Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa.

83. Roedd y tystion yn awyddus i nodi bod canlyniadau'r arolwg yn cael eu cymryd o ddifrif a bod angen i'r uwch dîm rheoli yn yr Amgueddfa fod yn fwy gweladwy. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i gyflawni hyn a bod fforwm staff yn cael ei sefydlu, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr yr Amgueddfa, a fyddai'n cynrychioli'r staff o wahanol lefelau'r sefydliad.<sup>57</sup>

84. Ychwanegodd y tystion y byddai hyfforddiant newydd i'r rheolwyr yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad gan edrych ar bryderon sylfaenol y staff. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Amgueddfa wedi dod â hwyluswyr allanol i mewn i weithio gyda'r staff a grwpiau ffocws i fwrw ymlaen â materion a nodwyd yn yr arolwg staff.<sup>58</sup>

85. Ar ben hynny, roedd yr Amgueddfa wedi cyflwyno strategaeth adnoddau dynol newydd, ac fel rhan o honno ceid strategaeth hyfforddi a datblygu newydd a fyddai'n cynnwys yr holl staff. Esboniodd y tystion:

“By next financial year, we'll have doubled our investment in staff training going forward on an annual basis, and as part of that we will be developing a leadership and management programme.”<sup>59</sup>

---

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 386, 22 Medi 2015

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 395, 22 Medi 2015

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 396, 22 Medi 2015

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 397, 22 Medi 2015

86. Wrth fynd i'r afael yn benodol â'r pryder bod angen i'r uwch reolwyr fod yn fwy gweladwy, cydnabu'r tystion fod yna waith i'w wneud yn hyn o beth.<sup>60</sup>

### **Ein barn ni**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad ariannol yr Amgueddfa Genedlaethol yn cynnwys saith dangosydd lefel uchel sy'n ymwneud ag un o'r amcanion allweddol ym "Map Gweledigaeth" yr Amgueddfa. Er hynny, rydym yn pryderu nad yw rhai o'r targedau perfformiad yn ddigon ymestynnol, yn arbennig lle mae'r targedau wedi'u gostwng ers y llynedd.**

**Er ein bod yn nodi'r newidiadau sy'n wynebu'r Amgueddfa Genedlaethol, a'r effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y perfformiad, rydym yn argymhell y dylai'r Amgueddfa Genedlaethol adolygu'r targedau hyn y flwyddyn nesaf a gosod targedau uchelgeisiol sy'n fwy ymestynnol er mwyn ysgogi gwelliant a newid.**

**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ystyriaeth yn cael ei rhoi gan yr Amgueddfa Genedlaethol i godi tâl am wasanaethau penodol, ond rydym yn credu bod rhaid i unrhyw daliadau beidio ag effeithio ar bolisi Llywodraeth Cymru ar fynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Rydym yn derbyn ac yn cymeradwyo'n llwyr y sicrwydd a roddwyd i ni gan y tystion y bydd yr Amgueddfa'n parhau â'i ymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth. Rydym yn argymhell na ddylai'r refeniw ddisodli incwm y gallai'r Amgueddfa ei gollu ar ffurf cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac y dylid bod yn dryloyw yngylch sut mae'n cael ei ddefnyddio gan yr Amgueddfa.**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cynllun pensiwn a chynllun dileu swyddi'r Amgueddfa Genedlaethol fel pe bai'n allbwynt o'i gymharu â chynlluniau sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. O gymharu hyn â'r anghydfod tâl parhaus gyda'r staff yn yr Amgueddfa sydd ar y cyflogau isaf, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith negyddol y mae hyn wedi'i chreu argraff ar y cyhoedd o'r Amgueddfa Genedlaethol, yn arbennig felly yng ngoleuni taliadau diweddar i staff uchaf yr amgueddfa ar adeg pan**

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 399-402, 22 Medi 2015

**fo'n ymddangos bod yna doriadau cyflog i'r staff isaf eu cyflogau yn yr Amgueddfa. Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Amgueddfa Genedlaethol i ddatrys anghydfodau dros gyflog ac i wella cyflogau cyfartal ar draws y sefydliad.**

**Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch rhai o'r materion a godwyd yn y arolwg staffyr Amgueddfa Genedlaethol, yn arbennig o ran bwlïo ac aflonyddu a lefel gyffredinol isel ysbryd y staff. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dîm uwch reoli'r Amgueddfa i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a'r ffaith eu bod yn mynd ati o ddifrif yn y materion hyn. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Amgueddfa barhau â'r gwaith hwn a chynnal arolwg staff arall ar adeg briodol i asesu a yw'r camau sy'n cael eu cymryd yn arwain at welliant ac i nodi meysydd lle y gall fod angen rhagor o welliannau.**

## 4. Comisiwn y Cynulliad

---

### Y cefndir

87. Dyma'r ail flwyddyn i'r Pwyllgor graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon<sup>61</sup> Comisiwn y Cynulliad (y Comisiwn). Mae'r cyfrifon yn agored i gael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chafodd y farn archwilio ddiamod ei llofnodi ar 15 Gorffennaf 2015.

88. Mae cyllideb a dangosyddion perfformiad y Comisiwn yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid. Cafodd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2016-17 ei osod ar 25 Medi 2015 a bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu arni ar 1 Hydref 2015.

89. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14*,<sup>62</sup> ddau argymhelliad i Gomisiwn y Cynulliad yn benodol:

**“Argymhelliad 2.** Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru nodi'n glir yn ei gyfrifon ar gyfer 2014-15 yr arbedion o'r buddsoddiad a wnaed mewn technoleg gwybodaeth a chyfieithu yn 2014-15.”

**“Argymhelliad 7.** Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru nodi yn eu cyllidebau a'u cyfrifon eu dull o reoli arian - yn enwedig eu targed ar gyfer tanwariant.”

90. Roedd Argymhelliad 9 hefyd yn gymwys i'r Comisiwn:

**“Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn annog sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i ystyried sut y maent yn cyflwyno gwybodaeth am eu defnydd o arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall, ac sy'n dangos blaenoriaethau'r sefydliad a lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r blaenoriaethau hynny.”

---

<sup>61</sup> [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon, 2014-15](#)

<sup>62</sup> [Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14](#), Mawrth 2015



91. Trafododd y Pwyllgor hefyd ddigwyddiad twyll a effeithiodd ar gyfrifon 2013-14 a 2014-15. Rhoddodd y Dirprwy Lywydd ymateb i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2015.<sup>63</sup>

### **Hygyrchedd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i'r Cyhoedd**

92. Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon y Comisiwn yw'r ddogfen hiraf o blith y pum sefydliad yn y sector cyhoeddus y bu'r Pwyllgor yn craffu ar eu cyfrifon ar gyfer 2014-15 eleni. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion am nodau strategol y sefydliad a'r perfformiad mewn geiriau, siartiau a lluniau.

93. Am y flwyddyn gyntaf, mae'r Comisiwn wedi cynnwys adran yn yr Adroddiad Blynyddol ac ynddi ddetholiad o Ddangosyddion Perfformiad Corfforaethol, (tudalennau 64 a 65). Mae hyn yn dangos y perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn o'i gymharu â 2013-14, mewn rhifau ac â system goleuadau traffig er mwyn ichi weld y perfformiad ar yr olwg gyntaf.

94. I bwysu a mesur y newidiadau a wnaed yn nogfennau cyfrifyddu'r Comisiwn er mwyn gwella tryloywder a hygyrchedd cyhoeddus, dywedwyd wrth yr Aelodau fod ymdrechion wedi'u gwneud i gyflwyno'r data mewn modd hwylus i'r defnyddiwr gan ddefnyddio hysbysluniau a "digestible pieces of information".<sup>64</sup>

95. Cyfeiriodd y tystion hefyd at yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Comisiwn:

"So, on the website on the top of it, you can find 'How the Assembly works' and then within that there's a lot of information about the Assembly Commission, including all the annual reports. Just to build on what David said, there is a Her Majesty's Treasury initiative for the streamlining of annual reports and accounts, and we're working at the moment with the Wales Audit Office to review all our processes for the accounts for last year, including thinking about what the content should be for next year. What we'll do is we'll go back to what's going to be the core requirement—what are Treasury saying is their expectation in terms of streamlined reports—and then we'll consider what else we might want to keep in there or add in, because we do have to balance, as David said,

<sup>63</sup> Llythyr oddi wrth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, 1 Mehefin 2015

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 29 Medi 2015

the streamlining and transparency. As the Assembly Commission, the organisation that is democracy in Wales, we feel that there's an onus on us to be as transparent, and therefore as full, as possible."<sup>65</sup>

## **Llywodraethiant a Strategaeth**

96. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi cefndir ychwanegol i'r datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys Datganiad Llywodraethu sy'n tynnu sylw at fframwaith llywodraethu a rheoli Comisiwn y Cynulliad. Mae datblygiadau allweddol 2014-15 yn cynnwys:

- Bwrw ymlaen â gwaith ar uchelgais y Comisiwn o Bwyllgorau Cynulliad o'r Radd Flaenaf;
- Trosglwyddo gwasanaethau TGCh o ddarparwr allanol i drefniant mewnol;
- Uwchraddio gwefannau'r Cynulliad
- Datblygu rhaglen hirdymor o fuddsoddi mewn blaenoriaethau ar gyfer ystâd y Cynulliad;
- Parodrwydd ar gyfer newid cyfansoddiadol;
- Gwelliannau wrth reoli contractau, drwy dîm Caffael dynodedig; a
- Chwblhau adolygiad o effeithiolrwydd y Comiswn gan yr Archwilwyr Mewnol.

97. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn sôn bod y Comisiwn wedi cytuno ar gynllun gweithredu ac wedi'i roi ar waith yn sgil adolygiad o'i effeithiolrwydd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn.

98. Nodwyd dwy risg newydd i'w cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y rhain yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a phrosiect ffonau. Mae'r datganiad yn nodi'r prosesau sicrwydd mewnol ac allanol.

99. Edrychodd y Pwyllgor ar effaith newidiadau yn y fframwaith llywodraethu a strategaeth a gofynnodd i'r tystion ymhelaethu ar ganfyddiadau adolygiad yr Archwilwyr Mewnol ar effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol y cyfeiriwyd atyn nhw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gofynnodd y Pwyllgor am

---

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 29 Medi 2015

esboniad o unrhyw newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith yn sgil yr adolygiad.

100. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“That particular piece of work isn't a piece of internal audit work; it's something that we do when we require our heads of service to report back on how they've discharged their functions across the year and their confidence levels that people within their teams are aware of and implementing all the governance structures. We then hold—and this is another example of how we use our independent advisers—a scrutiny meeting of the management board in the run-up to the end of the financial year. It's attended by the Wales Audit Office and also one of our independent advisers, when we then hold to account each of the directors and the heads of service for what they've said in their reports. And that's the material that we then pull into the governance statement, so that I can have confidence and assurance that the governance statement I'm making is based on proper evidence. So, that's what that piece of work is.”<sup>66</sup>

101. Cododd yr Aelodau gwestiynau am y modd y mae'r Comisiwn yn defnyddio cynghorwyr arbenigol ac yn benodol eu rôl a'u costau. Dywedwyd wrth yr Aelodau:

“I think they play a key role in our governance—'critical friends' is often the phrase that's used—and certainly, in my experience of the Commission and in the audit committee, it's a key role they play in terms of the wider experience they have with other organisations, but they're in a position to probe and challenge our decision making so that it is as robust as possible and it's done in a very constructive way. I have to say, I think the interventions are very skilful, they're often towards the end of a discussion, and may pick up issues and nuances that have not been captured in that discussion by Commissioners or in other committees. So, I think it's very important that we continue with the emphasis we put on their role.”<sup>67</sup>

---

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 29 Medi 2015

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 29 Medi 2015

102. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod rhai cynghorwyr arbenigol yn gweithio gyda'r Comisiwn yn ôl yr angen o ddydd i ddydd gan ddefnyddio'u harbenigedd. Er enghraifft, mae un ohonyn nhw ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn B&Q ac mae un arall yn gyn-Gyfarwyddwr TG i John Lewis.

“These are people who we couldn't possibly afford to employ, but who have reached that stage where they want to give something back and, in fact, who say they get a great deal from working with us. So, we are very fortunate to have them.”<sup>68</sup>

103. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Comisiwn yn fodlon bod y cynghorwyr arbenigol yn cynnig gwerth am arian a bod y modd o'u defnyddio wedi bod yn destun gwerthusiad.<sup>69</sup>

104. Codwyd cwestiwn hygyrchedd gwefan y Cynulliad a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i uwchraddio'r wefan yn gwella hyn. Cyfeiriodd Aelodau at y wefan fel un “impenetrable” gan ddweud mai'r ffordd orau i'w chyrru oedd ‘to do a search in Google and hope it took you to the right part of it’.<sup>70</sup>

105. Haerodd y tystion y dylai'r wefan fod yn hwylus i'r defnyddiwr a bod adborth negyddol yn cael ei gymryd o ddifrif. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“The work that we did in the financial year that you're scrutinising was to move to a new platform, a Sharepoint platform, which had a cost saving but also gives us greater flexibility, and we will now be moving forward to improve the website and to improve accessibility. It links, actually, to the work that we're doing on the Record of Proceedings, for example, where we want the information about Assembly business to be much more useable and open to search, and turning it into open data and putting that on the website in a way that's easy to find. Sometimes I struggle to find things; that absolutely cannot be right.”<sup>71</sup>

---

<sup>68</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 29 Medi 2015

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 29 Medi 2015

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 29 Medi 2015

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 29 Medi 2015

## Yr ymagwedd at reoli arian a thanwario ar dargedau

106. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi dull y Comisiwn o reoli arian a thanwariant ar dargedau am y flwyddyn ariannol.

107. £50.536 miliwn oedd yr alldro adnoddau ar gyfer 2014-15 o'i gymharu â chyllideb o £50.598 miliwn, gan arwain at danwariant o £64k (0.1%). Roedd hyn ymhell o fewn y targed o danwariant o lai nag 1% (<£501k). Gwelir rhai o'r prif wyriadau oddi wrth y gyllideb a gymeradwywyd ar dudalen 124 o'r Cyfrifon:

- Costau llety a chyfleusterau £1.7 miliwn (22%) yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd;
- Costau eraill £331,000 (27%) yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd;
- Cyflogau staff a chostau perthynol £284,000 (1.6%) yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd;
- Costau TGCh £122,000 (3.8%) yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd;
- Gwariant cyfalaf £1.2 miliwn (69%) yn is na'r gyllideb a gymeradwywyd;
- Cyflogau, lwfansau a chostau perthynol yr Aelodau £775,000 (5.5%) yn is na'r gyllideb a gymeradwywyd; a
- Chostau hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth £166,000 (37%) yn is na'r gyllideb a gymeradwywyd.

108. Mae'r cyfrifon yn dweud bod y tanwariant ar gyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau wedi'i ailddyrannu i gynnal a chadw ystâd y Cynulliad. Buddsoddwyd hefyd yn barod ar gyfer symud i system ffonau newydd, uwchraddio'r system radio diogelwch a chwblhau'r prosiect i wella'r system wresogi yn y Senedd.

109. Cyfeiriodd yr Aelodau at eu gwaith craffu ar gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2013-14 a'r mater a godwyd y pryd hwnnw fod y Comisiwn yn un rhan o'r sector cyhoeddus a oedd â'r uchelgais o wario hyd at o fewn 1 y cant o'r gyllideb bob amser ac nid cynhyrchu arbedion a allai gael eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus. Argymhellodd y Pwyllgor o'r blaen y dylai'r Comisiwn (a Llywodraeth Cymru) nodi eu dull rheoli arian yn eu cyllidebau a'u cyfrifon - ac yn benodol eu targed o ran tanwario.

110. Heriodd y Pwyllgor y tystion ar y mater hwn eto gan ofyn pam roedd Comisiwn y Cynulliad wedi parhau â'r angen i wario hyd at o fewn 1 y cant o'r gyllideb a ddyrannwyd hyd yn oed pan nad oedd angen gwneud hynny o bosibl.

111. Cytunodd y tystion ei bod yn iawn iddyn nhw gael eu herio ac iddyn nhw ymateb ar y mater hwn.

"...we continue, in the Commission, to believe that our strategy is a correct one. There are advantages and disadvantages, whichever way you go if you set a target of 1 per cent or more being underspent, or less, as we do. But, those resources are used very effectively. The investment and resourcing board looks at schemes; there's a long-term investment plan in all the critical areas that need investment, like ICT, refurbishment and maintenance and these things. So, it seems to us more effective to manage those resources and to utilise them against our long-term strategies. That continues to be our view. I have to say, though, we obviously entered into an exchange last year on this and we'll reflect further, but it would be wrong if I were to say, as this Commission now works towards the end of its term, that that's likely to change."<sup>72</sup>

112. Ar ben hynny, esboniodd y tystion:

"...may I look at your position from around the other way? At this point of the year, in the autumn, we begin to assess the state of our budget and what our plans are for the remainder of the year and that assessment intensifies as the year goes forward. Our target is less than a 1 per cent underspend. If, at this point in the year, we had such a budget that we thought we couldn't achieve that target, it would be an incentive to hand that money back to the Welsh block in order that we do achieve that target. So, I think it achieves the incentive that you're looking for. At this point, if we had £1 million and we only had credible appropriate value-for-money plans for less than that, we definitely would be seeking a supplementary budget to hand that money back to the Welsh Government."<sup>73</sup>

---

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 29 Medi 2015

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 122, 29 Medi 2015

113. Cydnabu'r Aelodau fod yr esboniad hwn yn cyflwyno'r dull mewn ffordd bur wahanol efallai i'r hyn a gynigiwyd yn y gorffennol lle bernid bod y targed hwn o 1 y cant yn enghraifft o effeithiolrwydd y Comisiwn wrth reoli ei gyllidebau.

114. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor:

"...there are significant variances on a number of different lines in the outturn versus the budgets that have been agreed, which suggests that your budgeting arrangements may not, perhaps, be as effective as you suggest in your report. But I do think that it is important to note your comments, as Chief Executive, suggesting that resources could be returned if significant efficiencies were found."<sup>74</sup>

## Staffio

115. Nifer y staff a oedd yn cael eu cyflogi'n gyfartal ag amser-llawn ar 31 Mawrth 2015 oedd 391.24, sef cynnydd o 21.7. Mae'r cyfanswm tâl canolrifol a ddangosir yn yr Adroddiad Blynyddol wedi cynyddu fwy na 9% o £26,988 i £29,475.

116. Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn oedd 7.26 o ddiwrnodau gwaith y person ar gyfartaledd (3.0%), sy'n is na chyfartaledd y sector cyhoeddus o 7.9 diwrnod, ond yn uwch na tharged y Comisiwn o 7 diwrnod. Mae gryn dipyn yn uwch hefyd na ffigurau'r llynedd, sef 5.48 o ddiwrnodau gwaith, neu 2.49%.

117. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu Adroddiad Cydraddoldeb cynhwysfawr.<sup>75</sup> Mae hwn yn cynnig gwybodaeth fanwl am niferoedd staff, rhywedd, BME, proffil anabledau a dadansoddiadau eraill yn ôl gradd. Mae tudalen 97 o'r cyfrifon yn dangos bod 53% o'r staff cyfartal ag amser-llawn yn fenywod, ac felly hefyd 3 o'r 6 chyfarwyddwr. Cyflog canolrifol gwrywod oedd £27,528 a chyflog canolrifol benywod oedd £32,567 (cyflog sylfaenol).

118. Mae data monitro'r gweithlu'n dangos bod 58% o'r staff sy'n eu disgrifio'u hunain fel BME wedi'u crynhoi yn y band cyflog Cymorth Tîm. Mae'r adroddiad cydraddoldeb yn dweud bod cynllun gweithredu er mwyn gwella wedi'i roi ar waith ym mis Mehefin 2014 i helpu staff o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) ac i gynyddu

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 29 Medi 2015

<sup>75</sup> [Comisiwn y Cynulliad – Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014-15](#)

cynrychiolaeth pobl BME yn y gweithlu. Cyflogwyd Cydlynnydd i fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu hwn.

119. Does dim sôn am gynlluniau penodol i ddileu swyddi yng nghyfrifon 2014-15, ond mae nodyn ar dudalen 162 o'r cyfrifon yn dangos bod y taliadau iawndal y sonnir amdanyn nhw yn cynnwys dau daliadau dileu swydd a oedd yn werth cyfanswm o £19,000. Yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*<sup>76</sup> rhoddwyd nifer o argymhellion a gwybodaeth gymaradwy. Cost gyfartalog yr ymadawiadau i Gomisiwn y Cynulliad, fesul ymadawiad, oedd £39,470 a'r cyfnod ad-dalu oedd 14 mis, ar sail 40 o ymadawiadau, ar gyfer y cyfnod Ebrill 2010 i Ragfyr 2013. Edrychodd yr Aelodau ar faterion ynglŷn â sut mae cydbwysedd staffio'r Cynulliad yn newid ac yn arbennig y camau a gymerwyd i nodi'r rhesymau dros y cynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch yn 2014-15 ac i fynd i'r afael â'r cynnydd hwnnw.

120. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“We try to get the balance right between supporting staff who obviously have a wide range of different responsibilities and circumstances and making sure that all of us who work here and take our salaries deliver what’s expected of us—so, in terms of performance management, sharpening up on that. So, we try to balance those two things so that we get the best performance for the organisation, but remain an employer of choice. We’re very proud, still, to be Investors in People gold and to have all sorts of awards right across the piece. The Working Families award—we were in the top 30 just last week, I think. So, we’re recognised as a good employer. We are disappointed in the sickness absence results, and we have new business partners in HR who are working with line managers to make sure they have the right support and expertise to deal with each individual situation.”<sup>77</sup>

121. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cynlluniau ar gyfer cynllun dileu swyddi'r Comisiwn yn y dyfodol, a dywedwyd wrtho yn ystod y dystiolaeth nad oedd yna fwriad i gyflwyno cynllun dileu swyddi:

---

<sup>76</sup> [Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru](#) (Chwefror 2015)

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 29 Medi 2015



“We’d carried out our own internal audit review of the two schemes that we’ve run during the fourth Assembly and that came up with recommendations. We were able to provide that internal audit work to the Wales Audit Office when they did their VFM study, and we’ve taken on board their conclusions. So, again, a lot of emphasis on documentation, business cases and making sure that the process is robust in those terms. We don’t have plans at the moment for a severance scheme. It doesn’t mean we won’t; it would be driven by business need and we would assess that again. The investment and resourcing board would look at what the policies are behind it, why we are doing it and how we are going to deliver value for money and take account of Wales Audit Office best practice recommendations.”<sup>78</sup>

122. Pryder i’r Pwyllgor oedd cael gwybod wedyn, mewn llythyr dyddiedig 19 Tachwedd 2015, at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fod cynllun dileu swyddi am gael ei gyflwyno:

“...we have been considering whether to run a voluntary severance scheme and, having carefully weighed the benefits against the negative aspects and risks, we have concluded that we should”.

Mae’r llythyr yn amlinellu diben y cynllun, sef:

- Allow the organisation to respond to shifts in our skills requirements;
- Facilitate organisational change, including within particular teams;
- Improve workforce efficiency; and
- Deliver long-term savings where possible and/or avoiding additional costs in meeting skill shortages.

Ar ben hynny,

“In planning the scheme, we have taken full account of the recommendations arising from the internal audit review of our previous schemes and from the wider WAO VFM study into severance schemes. The cost, benefits and savings from the

---

<sup>78</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 119, 29 Medi 2015

scheme will be published as part of the 2015-16 Annual Report and Accounts in July 2016.”<sup>79</sup>

## Digwyddiad Twyll

123. Trafododd y Pwyllgor ddigwyddiad twyll wrth iddo graffu ar gyfrifon 2013-14.<sup>80</sup> Effeithiodd y digwyddiad ar gyfrifon 2014-15 hefyd; dangoswyd £29,000 fel colled storfeydd cyfrifadwy ar dudalen 162 o'r cyfrifon hyn, £71,000 yn 2013-14.

124. Mae Cynllun y Comisiwn ar gyfer Ymateb i Dwyll<sup>81</sup> wedi'i ddiweddarau ac wedi'i ategu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd effeithiolrwydd y newidiadau hyn yn rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2015-16. Rhoddwyd sylw i ganlyniad y digwyddiad twyll yn y wasg.<sup>82</sup>

125. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael sicrwydd bod Cynllun y Comisiwn ar gyfer Ymateb i Dwyll yn edrych ymlaen ac yn defnyddio gwersi sydd wedi'u dysgu oddi wrth eraill. Gofynnodd yr Aelodau sut roedd y prosesau wedi newid er mwyn sicrhau na fyddai'r digwyddiad twyll a ddangosir yn y cyfrifon eleni yn codi eto yn y dyfodol.

126. Esboniodd y tystion:

“...after we, unfortunately, had the fraud incident, we evaluated and strengthened the controls that we had around the recording and verification of our supplier data. So, we had rather robust and routine and regular controls already in place, and we bolstered these, to make sure that the risk that we were exposed to couldn't happen again. We did some additional work then, after we had identified these controls, and you'll forgive me that—. I can give you a little bit of an indication of the changes that we have made, but to disclose exactly what we have done, I would suggest, in the nature of the security of what we're trying to do—. So, what we have essentially done is made sure that, wherever we have indication of a change of a supplier detail, of any nature, we have a way of verifying that through another party. So, something direct that comes to us,

---

<sup>79</sup> PAC(4)-33-15, PTN1, 1 Rhagfyr 2015

<sup>80</sup> [Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14](#), Mawrth 2015

<sup>81</sup> [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cynllun Ymateb i Dwyll](#) (Mawrth 2015)

<sup>82</sup> [Wales Online, 29 Medi 2015](#) (Wedi'i gyrchu 26 Tachwedd 2015)

as a request for a change, we can verify this in other ways. So, we have documented all this and tested all of this.”<sup>83</sup>

127. Roedd y Pwyllgor yn dal i bryderu bod y trefniadau a oedd ar waith adeg y twyll hefyd wedi’u cyfrif yn gadarn ar y pryd a gofynnwyd sut roedd y rhain wedi’u gwella. Roedd yr Aelodau’n pryderu’n arbennig ynghylch faint o amser a aeth heibio cyn i’r twyll gael ei ganfod, sef twyll a ddigwyddodd dros gyfnod o 3 mis.

128. Dywedwyd wrth yr Aelodau:

“In the month when it happened we asked the contractor to check that they’d received the payment because there was something that aroused our suspicions. The contractor did not come back and tell us that they had not received that payment. We also send remittance advices, so the contractor was receiving those remittance advices repeatedly, month on month, and didn’t come back and say, ‘Well, actually, you’ve sent us this piece of paper but you haven’t actually paid us any money.’ So, one of the things in strengthening the controls is we’ve learnt not to assume that some of the controls that we have are going to be effective where they depend on the effectiveness of other organisations.”<sup>84</sup>

### **Defnyddio asedau**

129. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer wedi’i ddatgan ar dudalennau 152 a 153 o Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

130. Ceisiodd y Pwyllgor asesu sut roedd y Comisiwn yn gweithio i sicrhau bod rheolaeth ar asedau’n sicrhau gwerth am arian. Codwyd cwestiynau ynghylch cost rhedeg adeilad y Pierhead, a yw’r incwm yn cyd-fynd â’r disgwyliadau a pha newidiadau sydd wedi’u gwneud i fanteisio i’r eithaf ar ddefnydd ac effaith yr ased hwn.

131. Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor fod adeilad y Pierhead yn cael ei ddefnyddio’n helaeth gan sefydliadau dinesig ar gyfer digwyddiadau a’i fod bellach yn lleoliad o fri gyda niferoedd ymwelwyr a oedd yn fwy na niferoedd y Senedd.

---

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 29 Medi 2015

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 29 Medi 2015

132. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod adeilad y Pierhead yn ‘highly valued event space and we have invested in audio visual equipment and staging to support delivery of world class events’. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd cyfanswm o 123 o ddigwyddiadau eu cynnal ac, yn chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, mae 70 o ddigwyddiadau wedi’u cynnal yn barod.<sup>85</sup> Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“We believe this range of activity represents very good value for money in return for the annual costs of the Pierhead, which are around £175k per annum.”<sup>86</sup>

### *Ein barn ni*

**Mae’r Pwyllgor yn falch o weld rhai o’r newidiadau a wnaeth Comisiwn y Cynulliad i ddiwyg ei ddogfennau cyfrifon er mwyn gwella hygyrchedd a thryloywder i’r cyhoedd. Mae’r Pwyllgor yn croesawu defnyddio system goleuadau traffig i ddangos perfformiad ar yr olwg gyntaf a defnyddio hysbysluniau a ‘digestible pieces of information’. Serch hynny, rydym yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cynnwys dogfen grynoded fel rhan o gyflwyno’i gyfrifon yn y dyfodol.**

**Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r gwaith sy’n cael ei wneud gan Gomisiwn y Cynulliad i ateb gofynion y Trysorlys o ran sicrhau bod adroddiadau’n symlach ac yn fwy tryloyw. Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai’r gwaith hwn gael ei adolygu a’i fonitro’n agos i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu bodloni.**

**Ystyriodd y Pwyllgor bryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd gwefan y Cynulliad, yn arbennig o gofio pwysigrwydd gwybodaeth ar-lein o ran ymgysylltu â’r cyhoedd. Mae’r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i fynd i’r afael â’r mater hwn ac mae’n argymhell y dylai’r gwaith hwn gael ei wneud ar fyrder i sicrhau bod gwefan y Cynulliad mor hwylus a hygyrch â phosibl i’r defnyddiwr.**

**Hoeliodd y Pwyllgor sylw ar ei bryderon blaenorol ynghylch uchelgais parhaus Comisiwn y Cynulliad i wario bob amser hyd at**

---

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 29 Medi 2015

<sup>86</sup> PAC(4)-29-15 PTN11, 3 Tachwedd 2015

**o fewn un y cant o'r gyllideb. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater hwn eto a chlywodd yr esboniad ar gyfer yr ymagwedd hon gan Brif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr ymagwedd hon yn parhau ond nid yw wedi'i argyhoeddi bod yr ymagwedd yn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran defnyddio adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad fonitro'r ymagwedd hon yn ofalus, a lle gwelir diffyg effeithlonrwydd arwyddocaol y dylai'r adnoddau hyn gael eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.**

**Bu'r Pwyllgor yn trafod ymagwedd Comisiwn y Cynulliad at staffio ac er bod absenoldeb salwch y staff yn is na chyfartaledd y sector cyhoeddus yr ydym yn pryderu bod y lefelau yn uwch na tharged Comisiwn y Cynulliad. Rydym yn nodi siom Comisiwn y Cynulliad ynglŷn â'r ffigurau hyn ond yn croesawu'r ffaith bod partneriaid busnes adnoddau dynol wedi'u cyflwyno i weithio gyda rheolwyr llinell i wella'r rheolaeth ar absenoldeb. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai lefelau absenoldeb oherwydd salwch barhau i gael eu monitro'n ofalus i sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd yn cael effaith gadarnhaol ac i nodi ble y gall fod angen rhagor o waith.**

**Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor nad oedd cynlluniau i redeg cynllun dileu swyddi, er ein bod yn deall nad oedd y posibilrwydd o redeg cynllun yn y dyfodol wedi'i ddiystyru. Mewn llythyr pellach at y Pwyllgor, cawsom wybod y bydd Comisiwn y Cynulliad yn rhedeg cynllun dileu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd iddo o ran y gwaith sydd wedi'i wneud i ystyried a oes angen cynllun a beth fydd diben y cynllun. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi'r newyddion diweddaraf iddo erbyn haf 2016 am gynnydd y cynllun a rhagor o fanylion am sut mae'r paratodau at y cynllun wedi cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad o'i gynlluniau blaenorol ac o'r astudiaeth Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau dileu swyddi.**

**Ystyriodd y Pwyllgor y digwyddiad twyll a ddigwyddodd yn 2013-14 a'r effaith ddilynol a gafodd ar gyfrifon 2014-15 ac yn benodol colled o £29,000 yn 2013-14 a £71,000 yn 2013-14. Mae'r Pwyllgor yn siomedig mai swm bach yn unig o'r colledion hyn a all gael ei**

**adennill ac mae'n dal yn bryderus nad oedd y prosesau a oedd ar waith ar y pryd yn ddigon cadarn i atal y twyll rhag digwydd. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ei bod wedi cymryd cyfnod o dri mis cyn i'r twyll gael ei ganfod. Er hynny, rydym yn nodi'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i gryfhau ei reolaethau o ran cofnodi a dilysu data ei gyflenwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu ei reolaethau yn y maes hwn i sicrhau bod mesurau rheoli o'r fath yn dal yn gadarn. Rydym yn argymhell parhau i gyfathrebu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu rheoli i helpu i atal digwyddiadau twyll rhag digwydd yn y dyfodol.**

## 5. Chwaraeon Cymru

---

### Y cefndir

133. Eleni yw'r tro cyntaf i'r Pwyllgor graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Chwaraeon Cymru.<sup>87</sup> Mae'r cyfrifon ar dudalennau 21-55 yn agored i gael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chafodd y farn archwilio ddiamod ei llofnodi ar 1 Gorffennaf 2015. Cytunodd y Pwyllgor i edrych ar gyfrifon Chwaraeon Cymru ar ôl ei waith craffu ar gyrff tebyg yn ystod tymor hydref 2014. Roedd elfennau o waith Chwaraeon Cymru yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon ym mis Mawrth 2014.<sup>88</sup>

134. Ystyriodd yr Aelodau sut mae Chwaraeon Cymru'n trefnu bod gwybodaeth ariannol yn fwy hygyrch ac yn integredig â strategaeth Llywodraeth Cymru, gan ofyn a oedd yna gynlluniau i lunio dogfen yn wynebu'r cyhoedd a fyddai'n dwyn ynghyd yr wybodaeth allweddol a geir yn eu cyfrifon, eu cynllun busnes a'u strategaeth hirdymor newydd, yn dangos y blaenoriaethau a lefel yr adnoddau a oedd wedi'u hymrwymo i'r blaenoriaethau hynny. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“In terms of our strategy, I think we have, as I say, the two clear aspirations—to get every child hooked on sport for life—and we obviously put £17 million of our investment into community sport, which is based around ‘every child hooked’, and then we use our lottery funds for our nation of champions. In terms of our documentation, obviously, we produce statutory accounts, and we also produce, and are producing currently, a future document that will look at our next five years; that will set out our targets and strategies for the next five years, alongside how we plan to invest.”<sup>89</sup>

135. Gofynnodd yr Aelodau sut roedd Chwaraeon Cymru'n bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng gweithredu eu cynllun strategol hirdymor ar gyfer 2015-20 a'r blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer Chwaraeon

---

<sup>87</sup> [Adroddiad blynyddol a chyfrifon Chwaraeon Cymru 2014-15](#)

<sup>88</sup> [Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon](#) (Mawrth 2014)

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 29 Medi 2015

Cymru yn llythyr cylch gorchwyl blynyddol Llywodraeth Cymru.  
Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“It aligns very well, I think. The key measures for us are our population-level outcomes, so those are the numbers of young people that are taking part actively, the number of adults that are taking part, and again, the volunteering and coaching workforce, the outcomes of which I’ve just highlighted there. We also have our statutory commitments around the Welsh language, poverty, and we’re doing a lot of work that I’m sure I’ll maybe talk about a little bit later around tackling the inequalities.”<sup>90</sup>

### **Llywodraethiant a strategaeth**

136. Mae rôl rheoli Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn cael eu llywodraethu gan Fwrdd Chwaraeon Cymru. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at ddeuddeg o aelodau eraill y mae pob un ohonynt wedi’u penodi gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawstoriad eang o broffesiynau gwahanol ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad sy’n perthnasol i chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît.

137. Mae’r adroddiad blynyddol yn esbonio bod sawl grŵp gorchwyl a gorffen wedi’u sefydlu yn ystod 2014-15 gan y Bwrdd i gyflwyno adroddiadau ar faterion gweithredol, gan gynnwys: Adolygiad Plas Menai, cydraddoldeb, rheoli perfformiad, a phontio (i oruchwylio’r gwaith o recriwtio cyfarwyddwyr newydd).

138. Mae’r adroddiad blynyddol yn dweud hefyd fod adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a’r Pwyllgorau wedi’i gynnal yn 2014-15 yn sgil canllawiau ar yr arferion gorau yn y ddogfen Managing Public Money.<sup>91</sup>

139. Roedd y Pwyllgor yn dymuno archwilio sut mae’r fframwaith llywodraethu’n rheoli cyllid y sefydliad ac yn benodol sut mae Aelodau’r Bwrdd yn cael eu penodi. Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd hi’n cael ei sicrhau bod gan aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru y set sgiliau gywir.

---

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 29 Medi 2015

<sup>91</sup> [Trysorlys Ei Mawrhydi, Managing Public Money](#) (Gorffennaf 2013)



140. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Chwaraeon Cymru wedi gwneud gwaith i sicrhau bod y Bwrdd yn amrywiol a nodwyd bod yna raniad gwryw-benyw 57 y cant a bod 18 y cant yn aelodau o leiafrifoedd pobl dduon ac ethnig.<sup>92</sup> Dywedodd y tystion:

“We also identified where we needed to improve our diversity, and we worked with the public appointments unit around, let’s say, changing the language of our adverts, and looking at how we could encourage a much more diverse field. We used social enterprise, and we used a buddying system within the board, where we had board members, if somebody was interested, go and talk to them around a perception that maybe sport wasn’t for them. If we’re to achieve our targets, then sport has to be for everyone, and not for those that maybe have a very sporting CV, because they’re already hooked. It’s the ones that maybe don’t have the sporting CV that we need to encourage. So, to have that diversity now on the board, let’s say it brings its challenges, because it brings different viewpoints, but that’s exactly what we’ve been seeking.”<sup>93</sup>

141. Nododd yr Aelodau’r trosiant uchel ymysg aelodau’r Bwrdd ac mai dim ond un aelod o’r Pwyllgor Archwilio a fuasai’n bresennol ym mhob un o’r pedwar cyfarfod yn ystod 2014-15. Holodd yr Aelodau a oedd presenoldeb wedi bod yn broblem ac esboniodd y tystion fod y presenoldeb wedi bod yn 71 y cant a bod rhai absenoldebau’n deillio o’r ffaith nad oedd aelodau o’r Bwrdd wedi’u penodi yn ystod y cyfnod hwnnw.<sup>94</sup>

142. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut mae’r fframwaith llywodraethu mewnol yn rhoi’r sicrwydd angenrheidiol er mwyn i’r swyddog cyfrifyddu gymeradwyo’r cyfrifon blynyddol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“We have a governance framework, as you alluded to. So, this sets out our governance structure. If I just highlight our governance structure. We obviously have a board. We have two standing committees, which are our audit and risk committee and our remuneration board. We also have three sub-groups which are split into our aspirations. So, we have a sub-group

---

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 144, 29 Medi 2015

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 144, 29 Medi 2015

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 29 Medi 2015

for our community sport, we have a sub-group for elite sport and we have a sub-group for our high-performing organisations. These all have terms of references, they are chaired by our board members and we also augment them with some additional expertise as we see fit.

“We also, then, within the framework, have clear delegations of authority and we have a risk strategy plan, which relates back to our risk register. I also then gain additional assurances from our internal auditors, external auditors as well, and I attend all of the audit and risk committees.

“They provide additional scrutiny to the accounts, so I feel that provides me with the assurances you allude to.”<sup>95</sup>

143. Gofynnodd y Pwyllgor a welodd y rhaglen gwaith archwilio mewnol unrhyw faterion rheoli o bwys. Esboniodd y tystion fod tri mater wedi’u nodi. Yn gyntaf, mater cyffredinol sydd wedi arwain at ddatblygu system olrhain i’r rheolwyr ar gyfer argymhellion sydd heb eu cyflawni a thri mater penodol gan gynnwys: trefniadau rheoli prosiectau a’r angen i’w cryfhau; y system grantiau lle roedd angen i nifer o faterion gael eu dwyn ynghyd ac roedd adroddiad yr archwilwyr wedi arwain at benderfyniad gan Chwaraeon Cymru i gaffael system rheoli grantiau ar-lein newydd; a thrydydd maes yn ymwneud â chaffael lle mae’r gwaith caffael bellach yn cael ei wneud mewn modd clyfrach.<sup>96</sup>

## **Risgiau**

144. Mae adroddiad blynyddol Chwaraeon Cymru yn nodi’r risgiau allweddol sy’n wynebu Chwaraeon Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys gweithredu a lledaenu system newydd ar gyfer Rheoli Grantiau ar-lein ac effaith newid arfaethedig yn y strwythur rheoli. Er hynny, y risg strategol fwyaf arwyddocaol fydd effaith y toriadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus, ynghyd â chost ariannol gynyddol taliadau diffyg pensiwn, sy’n creu’r bygythiad mwyaf i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

145. Mae’r adroddiad blynyddol hefyd yn dweud mai un o’r risgiau allweddol i’r sefydliad yw cyflwyno’r system newydd o reoli grantiau ar-lein. Mae’r adran ar fonitro grantiau hefyd yn dweud bod gan

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 154 -155, 29 Medi 2015

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 158 -160, 29 Medi 2015

Chwaraeon Cymru yr hawl i “adfachu” grantiau a ddyfarnwyd ond does dim sôn sut mae’r ymagwedd at hyn yn cael ei phenderfynu. Mae’r adran “datblygiadau ar eu hanner” yn nodi bod adolygiad annibynnol wedi’i gynnal ar Gymdeithas Bocsio Amatur Cymru ar ôl i bryderon allanol a mewnol gael eu codi. Mae hyn wedi ysgogi adolygiad o systemau rheoli’r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a fydd yn cael eu hadolygu’n gyson yn 2015-16.

146. Er nad oes cyfeiriad ati yn yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon, un risg allweddol sy’n wynebu dosbarthwyr y loteri a grantiau yw’r cysyniad “ychwanegedd”,<sup>97</sup> sef mai dim ond gweithgareddau newydd sy’n ychwanegol at yr hyn y dylai’r Llywodraeth ei ariannu a ddylai gael eu cynorthwyo ag arian y Loteri. Mae’r mater hwn wedi dod yn fwy arwyddocaol o gofio’r toriadau diweddar mewn gwariant cyhoeddus

147. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli’n effeithiol, gan gyfeirio at y risg strategol i Chwaraeon Cymru sy’n deillio o effaith toriadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus. Roedd yr Aelodau’n awyddus i ganfod effaith y toriadau hyn ar allu Chwaraeon Cymru i gyflawni ei amcanion.

148. Esboniodd y tystion yr effaith ar waith Chwaraeon Cymru sy’n deillio o doriadau ariannol mewn rhannau eraill o’r sector cyhoeddus ac yn enwedig o ran sut y gall y sefydliadau hynny ddewis blaenoriaethu chwaraeon o ganlyniad iddyn nhw.

“All of our work is done with and through others, so if I just allude to—. If we want to get every child hooked on sport for life, one of the most captive audiences is in schools. We have a real opportunity now with the new Successful Futures programme, and the new curriculum that is being brought forward, to make sure that physical education and physical literacy is at the heart of that new curriculum. If we don’t develop the skills and confidence of young people to take part in sport and develop those habits for life, then we will not be able to achieve our objectives in the long term, because it makes it very, very difficult if young people don’t believe and have the confidence.”<sup>98</sup>

---

<sup>97</sup> [Egwyddor ychwanegedd](#)

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 29 Medi 2015

149. O ran mynd i'r afael â'r risgiau hyn, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Chwaraeon Cymru'n edrych ar atebion arloesol, er enghraifft, cydweithredu mawr drwy bartneriaethau.

“We’ve already started the journey with health; we have a tripartite agreement between Public Health Wales, ourselves and Welsh Government to get a physical activity director in place. We have some good partnerships out there with the Wales Council for Voluntary Action. We’re considering, with the arts council, a joint post around events, because we do similar events. So, these are the types of things that we will need to do in the future if we are going to face cuts and further cuts.”<sup>99</sup>

## Grantiau

150. Cyfeiriodd y Pwyllgor at gyfrifoldebau statudol tuag at y Gymraeg a bod Chwaraeon Cymru'n gwario tua £17 miliwn y flwyddyn ar ddarpariaeth gymunedol. Ceisiodd yr Aelodau ganfod pa drefniadau oedd gan Chwaraeon Cymru o ran darpariaeth gymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd yr Aelodau fod yna siroedd yng Nghymru lle nad yw'n bosibl i blant sy'n siarad Cymraeg gartref gael gwersi chwaraeon yn Gymraeg. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a oedd dwyieithrwydd wedi'i gynnwys yn asesiadau Chwaraeon Cymru o grantiau ac, o ran rhai o'r sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys Undeb Rygbi Cymru, pa bwysau yr oedd Chwaraeon Cymru yn eu rhoi arnyn nhw.

151. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Chwaraeon Cymru'n cymryd ei ymrwymiad i'r Gymraeg o ddifrif a bod gwaith wedi'i wneud gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain.<sup>100</sup>

“Specifically on national governing bodies, we held a joint conference with the commissioner last year, bringing together the governing bodies and asking them to look at their own commitment. You’re right, they don’t have the statutory commitment that we have, but as a funder of those organisations, we wanted to know what their commitment was. Some of these were around their website being bilingual—positive steps that we expected them to put forward that they could work on. They’ve put together an action plan themselves,

---

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 29 Medi 2015

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 29 Medi 2015

as a group of national governing bodies. That is a vision up to the next Commonwealth Games, to use role models, to look at the number of Welsh speakers within their own organisations, and how they present their sport through the Welsh language. Alongside that, we work very closely with the Urdd, making sure that we develop more coaches, more leaders, and develop more confidence for young people to use the language, which they use mainly in school but don't then use when they come out of school, to use that through sport."<sup>101</sup>

152. Pwysodd yr Aelodau ar y dystion o safbwynt beth fyddai'r canlyniad ar gyfer y sefydliadau hynny nad oedden nhw'n bodloni'r gofynion ynglŷn a'r Gymraeg o ran a gâi arian grant ei atal. Esboniodd y dystion nad oedd bodloni gofynion ynglŷn a'r Gymraeg yn amod arian grant ar hyn o bryd.<sup>102</sup>

### **Ein barn ni**

**Edrychodd y Pwyllgor ar y dulliau rheoli yn fframwaith llywodraethu Chwaraeon Cymru ac yn benodol ar benodi Aelodau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at bwysigrwydd amrywiaeth ar y Bwrdd a'r angen i'r Bwrdd feddu ar y set sgiliau gywir. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni hyn ac yn argymhell y dylai Chwaraeon Cymru barhau â'i ymrwymiad i wella amrywiaeth y Bwrdd a chyflawni ei darged o gydbwysedd 50:50 yn y gymhareb rhywedd erbyn 2020.**

**Ystyriodd y Pwyllgor fframwaith llywodraethu mewnol Chwaraeon Cymru ac mae'n nodi'r gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru i sicrhau bod y fframwaith yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Swyddog Cyfrifyddu er mwyn i'r cyfrifon blynyddol gael eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhaglen waith archwilio mewnol Chwaraeon Cymru wedi nodi materion rheoli ond mae'n fodlon ar y gwaith a wnaed gan Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r risgiau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Chwaraeon Cymru i reoli'r risgiau hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r atebion arloesol a nodwyd gan Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â risg ac**

<sup>101</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 171, 29 Medi 2015

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 29 Medi 2015

**mae'n argymell y dylai'r atebion hyn gael eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y risgiau'n cael eu lliniaru a, lle nad ydyn nhw'n cael eu lliniaru, dod o hyd i'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael eu dileu'n gynnar.**

## 6. Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2014-15

---

### Y cefndir

153. Dyma'r ail flwyddyn i'r Pwyllgor graffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.<sup>103</sup> Roedd cyfrifon 2014-15 yn agored i gael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac ar 8 Medi 2015 llofnododd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod. Mae'r cyfrifon cyfunol yn ymgorffori: byrddau iechyd lleol Cymru;<sup>104</sup> Finance Wales PLC; Career Choices Dewis Gyrfa Ltd; WGC Holco Ltd; a Regeneration Investment Fund for Wales LLP.

154. Yn sgil ei waith craffu ar Gyfrifon 2013-14,<sup>105</sup> gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad yn unswydd i Lywodraeth Cymru:

**“Argymhelliad 4.** Os bydd y berthynas ariannu bresennol yn parhau, dylai Llywodraeth Cymru gyfleu ei phenderfyniad yn gynnar o ran y cyllid sydd ar gael i'r Comisiynwyr. Yna, dylai'r cyllidebau hyn gael eu diogelu rhag gostyngiadau adrannol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.”

**“Argymhelliad 7.** Dylai [Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a] Llywodraeth Cymru nodi yn eu cyllidebau a'u cyfrifon eu dull o reoli arian - yn enwedig eu targed ar gyfer tanwariant.”

155. Roedd argymhelliad 9 hefyd yn gymwys i Lywodraeth Cymru:

**“Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn annog sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i ystyried sut y maent yn cyflwyno gwybodaeth am eu defnydd o arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall, ac sy'n dangos blaenoriaethau'r sefydliad a lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r blaenoriaethau hynny.”

156. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r Pwyllgor<sup>106</sup> ym mis Mehefin 2015 ond nid ymatebodd i Argymhelliad 9.

---

<sup>103</sup> [Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru 2014-15](#)

<sup>104</sup> [Cyfrifon Cryno'r GIG \(Cymru\) 2014-15](#)

<sup>105</sup> [Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14, Mawrth 2015](#)

## **Datganiad o Gyfrifon a thanwario ar dargedau**

157. Fel y nodwyd yn y dystysgrif archwilio, mae fformat y cyfrifon yn cael ei lywodraethu i raddau helaeth gan gyfarwyddiadau Trysorlys EM, er bod gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn i ddarparu datgeliadau ychwanegol os yw hynny'n helpu pobl i'w deall.

158. Mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys agregu sylweddol yn y ffigurau. Er enghraifft, dangosir £5.6 biliwn o wariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel un llinell yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Adroddiad ar yr Alldro i'r Pwyllgor Cyllid a hwnnw'n rhannu alldro'r adrannau rhwng gwariant adnoddau a gwariant cyfalaf. Hefyd, mae nodyn 6 yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos bod y £14.5 biliwn o wariant Rhaglenni'n cynnwys yn bennaf £13.7 biliwn mewn grantiau. Er hynny, does dim byd arall yn cael ei ddatgelu ynghylch natur y grantiau hyn.

159. Mae dogfennau cyllidebau Llywodraeth Cymru'n cynnwys manylion am y dyraniadau a'r ddarpariaeth gyllidebol sydd gan Lywodraeth Cymru wrth gefn i helpu i reoli'r sefyllfa ariannol. Mae Cyllidebau Atodol yn adeiladu ar hyn gan roi manylion am y lefelau tanwariant sy'n cael eu rheoli o fewn Llywodraeth Cymru, fel rhan o System Cyfnewid Cyllidebau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal ar ddiwedd y flwyddyn. Yn olaf, mae sefyllfa diwedd y flwyddyn yn cael ei chrynhai ar dudalen 5 o'r cyfrifon cyfunol. Ar gyfer 2014-15, roedd gan Lywodraeth Cymru danwariant o £0.2 biliwn, neu 1.5% o gyfanswm y gyllideb. Roedd y cyllidebau adnoddau a chyfalaf o fewn terfynau'r Trysorlys ac felly maen nhw wedi'u cario ymlaen i 2015-16, heb i arian gael ei ildio i'r Trysorlys.

160. Roedd gan bedair adran amrywiannau alldro o'u cymharu a'r gyllideb a oedd yn fwy na £10 miliwn:

- Tanwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £86.8 miliwn yn gysylltiedig â gwahaniaethau o ran yr amseru rhwng yr adeg y

---

<sup>106</sup> [Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2013-14](#) (Mehafin 2015)



defnyddiodd y GIG yr adnodd a'r adeg y tynnwyd yr arian parod i lawr;<sup>107</sup>

- Tanwariant Addysg a Sgiliau o £38.0 miliwn yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o werthoedd teg nad ydynt yn arian parod yn y model Benthyciadau Myfyrwyr;
- Tanwariant Llywodraeth Leol o £46.2 miliwn yn gysylltiedig â chyllideb gwariant a reolir yn flynyddol oddi wrth y Trysorlys na fu'n angenrheidiol; a
- Thanwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o £35.3 miliwn oherwydd darpariaeth nad oedd yn arian parod is na'r disgwyl.

161. Holodd yr Aelodau y tystion ar sut mae newidiadau mewn cyllid, ailddyrranu cyllid a thanwariant yn cael eu blaenoriaethu a'u rheoli ac er mwyn deall symiau allweddol a ddatgelwyd yn y cyfrifon.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am esboniad ar y gwahaniaethau yn yr amseru rhwng defnyddio adnoddau'r GIG a'r arian parod a dynnwyd i lawr, a arweiniodd at y tanwariant o £86.8 miliwn ar lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

162. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“...with health, because it's a grant for health, it's treated almost as a cash grant, whereas the accounts elsewhere are on a resource basis. So, there are a number of reasons for that figure in terms of the underspend against the ambit, but one was very much a time difference, in that the health service didn't draw down the cash that was available for them to draw down.”<sup>108</sup>

163. Mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys agregu sylweddol yn y ffigurau, er y cydnabyddir bod y rhaniad rhwng gwariant adnoddau a gwariant cyfalaf yn cael ei roi i'r Pwyllgor Cyllid. Er enghraifft, dangosir £13.7 biliwn o grantiau i gyrrff allanol fel un ffigur yn Nodyn 6. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion ynghylch datgelu symiau mawr yn y cyfrifon, yn arbennig felly o fewn alldro adrannol a grantiau.

---

<sup>107</sup> Mae [Cyfrifon Cryno'r GIG \(Cymru\) 2014-15](#) Atodiad 4 tudalen xiii yn dangos y tri gorwariant o'i gymharu â'r dyraniad adnoddau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, £26.6m, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro £21.4m a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda £7.5m.

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 6 Hydref 2015

“It’s called ‘grants’, and this is traditionally the way it’s been presented in this part of the accounts, but I think it’s unhelpful, too, because we’ve been doing a lot of work on grants recently. There’s now an annual grants report, which comes to the committee, and the committee has quizzed us quite hard on that. In that report, you’ll see a proper breakdown of the type of grants involved. This includes the rate support grant to local authorities, for example, which is a huge block of expenditure, but it also includes rather more sensitive, much smaller grants, it includes hypothecated grants, and I think it should be on the list for the simplification project. But, again, as you say, if we’re going to make it shorter, perhaps a reference to the accompanying annual grants report would be one way of doing it, or a simple pie chart, perhaps, as a visual.

“On that particular issue, it was one of the minor changes we made, looking forward to the end of 2015-16, with the change in the financial reporting management, as part of simplification. So, perhaps, as the Permanent Secretary has indicated, we made the change in line with what was recommended. With our position with grants, perhaps we made that change without considering what it would mean in terms of that transparency. But, as I said, it was one of the changes that was recommended as part of the simplifying and streamlining project.”<sup>109</sup>

164. Nododd yr Aelodau’r gwahaniaeth mân iawn rhwng llunio dogfen fer a sicrhau tryloywder yr un pryd gan ofyn pam nad oedd Llywodraeth Cymru’n cynnwys yn ei chyfrifon y dadansoddiad manylach o wariant a geir yn ei hadroddiad alldro sy’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Cyllid. Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen gwneud gwaith craffu ynglŷn â gwybodaeth o’r fath.<sup>110</sup>

165. Mae Nodyn 22 i’r cyfrifon yn dangos cynnydd yn nifer a gwerth y colledion a’r taliadau arbennig yn 2014-15. Gofynnodd yr Aelodau i’r tystion grynhoi’r rhesymau dros y cynnydd hwn a gofyn hefyd am esboniad ar newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddileu dyledion anadenilladwy. Nododd yr Aelodau fod cynnydd arwyddocaol

---

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 6 Hydref 2015

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 6 Hydref 2015

wedi bod mewn dyledion anadenilladwy eleni o £5 miliwn yn ychwanegol.

166. Roedd yr Aelodau'n dymuno canfod faint o amser a aethai heibio ers codi'r anfonebau gwreiddiol a faint o amser y buon nhw yn y cyfrifon fel dyledion anadenilladwy. Roedd yr Aelodau'n arbennig o bryderus ynghylch colledion yn deillio o'r ffaith bod y storfeydd cyffuriau strategol yn gorfod dileu gwerth £3 miliwn o frechiadau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“This is very much health board public health territory. A judgment would have to be made about likelihood and risk, and I'm not sure that those judgments have been made or that the restocking has taken place.”<sup>111</sup>

### **Gwella hygrychedd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i'r cyhoedd**

167. Er bod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 ymysg y dogfennau byrraf y bu'r Pwyllgor yn craffu arnyn nhw eleni, sef 61 o dudalennau, naratif cyfyngedig iawn sydd ynddi o ran y blaenoriaethau a lefel yr adnoddau sydd wedi'u hymrwymo i'r blaenoriaethau hyn.

168. Mae'n ymddangos nad oes fawr ddim newid wedi bod yn fformat neu fanylion yr wybodaeth ragarweiniol sy'n cyflwyno'r cyfrifon o'u gymharu â'r llynedd.

169. Ar 15 Medi 2015, trafododd y Pwyllgor 18<sup>fed</sup> Adroddiad y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB),<sup>112</sup> am y cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015. Mae'r Bwrdd yn ffynhonnell cyngor annibynnol ar osod safonau cyfrifyddu ar gyfer llywodraeth yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Bwrdd yn ceisio gwella ansawdd a defnyddioldeb adroddiadau ariannol a gwella'r gwaith craffu a'r atebolrwydd drwy'r prosiect Symleiddio a Mireinio Cyfrifon. O 2015-16 ymlaen, byddai hyn yn cynnwys fframwaith adrodd mwy integredig ar sail tair adran: adroddiad ar y Perfformiad; adroddiad ar Atebolrwydd; a'r Datganiadau Ariannol. Mae'r Pwyllgor yn deall ei bod yn bosibl bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymeithrio o'r fenter hon.

170. Heriodd yr Aelodau ymateb i'w Argymhelliad 9 blaenorol a mynd ar ei ôl. Pwysodd y Pwyllgor ar yr Ysgrifennydd Parhaol ynglŷn â

<sup>111</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 6 Hydref 2015

<sup>112</sup> [Adroddiad y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol 2014-15](#)

fformat y cyfrifon a'r ffaith bod y fformat fel pe bai heb newid o gwbl er bod rhywfaint o sicrwydd wedi'i roi yn flaenorol i'r Pwyllgor y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i beri bod y fformat yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

171. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

“...there's been no major change in the presentation of the accounts, but it is still our intention to deliver on that commitment. The financial reporting advisory board has a project and expectation for Government accounts across the board that, from the next financial year's accounts, will show significant improvement in accessibility and readability. We're working closely with the Wales Audit Office to do that. It is a matter of balance, because the accounts need to work as a document of record and be auditable on that £15 billion-worth of the public's money, but I think our view, like the committee's, is that they could be—well, they could probably be shorter—simpler and with a stronger narrative. I hope the committee can expect to see that for the next round.”<sup>113</sup>

172. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gobeithio symud ymhellach ymlaen ond o gofio ymyrraeth y Trysorlys, a oedd wedi dwyn y dyddiad ar gyfer llunio'r cyfan o gyfrifon y Llywodraeth ymlaen, roedd hyn yn golygu bod y cynnydd wedi'i ohirio, ond erbyn hyn roedd ar y trywydd iawn i fodloni dyddiad cau FRAB.

173. Nododd yr Aelodau y bydd cyfrifon 2015-16 yn dangos newid arwyddocaol ac y byddai hwn yn fater y dylai'r Pwyllgor a fyddai'n ei olynu yn y pumed Cynulliad ei ddilyn.

174. O ran gwella hygyrchedd cyhoeddus a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfrifon Llywodraeth Cymru, awgrymodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol datblygu dull a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i 'ddilyn yr arian' a gweld lle mae'r gwariant yn digwydd.

## **Cynaliadwyedd**

175. Mae'r Cyfrifon Cyfunol yn disgrifio ymrwymiad y sefydliad i gynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy 2013-14.<sup>114</sup> Hefyd, ym mis

<sup>113</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 6 Hydref 2015

<sup>114</sup> [Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14](#)

Mehefin 2015, cafodd y set derfynol o ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2015<sup>115</sup> ei chyhoeddi (yn y dyfodol, caiff y rhain eu disodli gan ddangosyddion cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Yr adroddiad blynyddol diweddaraf sydd ar gael ar Gyflwr yr Ystâd, sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol yr ystâd, yw'r adroddiad ar gyfer 2013-14.<sup>116</sup>

176. Darperir detholiad o'r prif ddangosyddion yn y Cyfrifon Cyfunol, tudalen 9. Mae'r mwyafrif o'r dangosyddion hyn yn dangos gostyngiad parhaus mewn allyriadau carbon neu dunelli o wastraff. Ar wahân i'r gostyngiad mawr o ran defnyddio trydan rhwng 2011-12 a 2012-13, nid yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i leihau'r defnydd yn y blynyddoedd diwethaf.

177. Roedd yr Aelodau'n dymuno dod o hyd i'r rhesymau dros y diffyg cynnydd o ran defnyddio trydan ac ynni arall, gan holi'r tystion ynghylch pa gamau a oedd yn cael eu cymryd i leihau'r defnydd ar ynni yn ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru.

178. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rhesymoli ystâd Llywodraeth Cymru wedi arwain at ostyngiad yn yr ynni a oedd yn cael ei ddefnyddio o ryw 30% o ran yr ôl troed carbon, ac ychwanegwyd:

"I don't think we do generate any electricity. There was an unsuccessful attempt at a wind turbine at our offices in Aberystwyth, as I recall, but generally speaking, not. But I think we take some pride in the achievements on estate rationalisation, and some of the figures in the table, in the accounts, I think are reasonable."<sup>117</sup>

## Rheoli Prosiectau

179. Ceisiodd yr Aelodau ganfod sut mae Llywodraeth Cymru'n gwella'r gallu i reoli prosiectau o fewn Llywodraeth Cymru ac yn enwedig y prosesau ar gyfer adolygu contractau cyn iddyn nhw dod i ben, er mwyn sicrhau mai'r opsiynau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian sy'n cael eu datblygu. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn pryderu am yr gwaith paratoi, cyn i gontractau ddod i ben, sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, neu'r diffyg gwaith paratoi mewn un adran yn benodol. Yn ystod gwaith y Pwyllgor ar y *Cyswllt Awyr oddi fewn i*

<sup>115</sup> [Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2015](#)

<sup>116</sup> [Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Gyflwr yr Ystâd 2013-14](#)

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 6 Hydref 2015

*Gymru*, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch prydlondeb ail-gaffael neu benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chontract arall a gofynnodd am sicrwydd nad oedd hyn yn nodwedd ar draws Llywodraeth Cymru.

“The goods and services that my organisation purchases every year—everything from biros to IT consultancy—amounts to about £0.5 billion. Given our current financial circumstances, I’m looking very closely at that to see whether we are actually extracting full value for money. I’ve established a work stream under the ‘Preparing for the Future’ programme, with the head of the National Procurement Service as the senior responsible officer reporting to me on that, to establish that we do indeed have the right kind of, sometimes, pretty hard-nosed approach, actually, to procurement, and that, if the public services are feeling the pinch financially, we’re making sure that we’re getting absolutely best value out of our contractors. So, I’m not saying ‘job done’ on this, but I think we have identified it as somewhere where we may be able to get better value for money for the taxpayer.”<sup>118</sup>

## **Rheoli Grantiau**

180. O ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae’r adroddiad blynyddol ar reoli grantiau’n dweud bod nifer o fesurau wedi’u sefydlu i ymdrin â phryderon ynghylch cyfyngiadau’r wybodaeth reoli gyffredinol a’r data corfforaethol sydd ar gael i ategu penderfyniadau ar grantiau. Cytunwyd y bydd gwelliannau grantiau’n parhau i ganolbwyntio ar wneud rhagor i ymgorffori arferion da ym mhrosesau a gweithdrefnau’r grantiau ar draws Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gwelliannau tactegol yn y system TG bresennol yn hytrach na rhoi system TG newydd sbon ar waith.

181. Cyfeirir at ragor o welliannau o ran hyfforddiant; gweithio gydag eraill a dysgu oddi wrthyn nhw; mesur cydymffurfiaeth; a deall costau gweinyddu.

182. Ym mis Mawrth 2015, rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol fanylion i’r Pwyllgor<sup>119</sup> am gyllid grant wedi’i neilltuo ar gyfer y GIG o £22 miliwn yn 2013-14.

---

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 6 Hydref 2015

<sup>119</sup> PAC(4)-10-15 PTN4, 21 Ebrill 2015

183. Mae'r Cyfrifon Cyfunol hefyd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu sy'n crynhoi'r fframwaith llywodraethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu hefyd yn rhestru gwendidau penodol yn y rheolaethau a nodwyd yn ystod y flwyddyn.

184. Cododd yr Aelodau gwestiwn rheoli grantiau a thynnu sylw at yr argraff gadarnhaol a gafodd y Pwyllgor gan yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau fod cynnydd yn cael ei wneud o ran gwelliannau, tynhau prosesau a chymryd risgiau priodol. Er hynny, mynegodd yr Aelodau bryderon bod enghreifftiau wedi bod yn y cyfryngau lle'r oedd y trefniadau ar gyfer dyfarnu grantiau wedi bod yn anfoddhaol. Gofynnodd yr Aelodau pa sicrwydd a allai gael ei roi bod ceisiadau ysgrifenedig yn dod i law â digon o gyfiawnhad a bod y rheiny'n cael eu hystyried yn drylwyr cyn i grantiau gael eu dyfarnu.

185. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

“...the grants management process stands up and has put us in a better position generally. There will always be some cases that go wrong. So, if you're seeking an assurance that that will never happen, I can't provide it. There will be cases where things go wrong or a firm goes bust—. I suspected you might ask me this question, so I asked myself the question, 'Well, how do I know that this is effective?' We can keep track of these figures, if you like, but, in recent years, we've made over 1,000 grant offers from which we currently have 14 cases where we're seeking some kind of recovery. If we keep track of those figures, we should know whether we're doing okay or not. I don't think I could tell you what the right level was but I think that that creates a sense of proportion about the problem that we've got here, but we will never completely eliminate that. I think that our grants management now is generally far less risky than it was. We can still improve the grants management programme. It's still at work.”<sup>120</sup>

186. Roedd y Pwyllgor yn dymuno edrych ymhellach ar gadernid yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn ceisiadau am grant fel rhan o unrhyw brosesau ymgeisio am grant gyda Llywodraeth Cymru gan fod y Pwyllgor yn teimlo bod un enghraifft benodol wedi bod lle nad oedd angen fawr ddim gwybodaeth. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

---

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 197, 6 Hydref 2015

“It won’t be typical because there’s no standard grant application. They vary enormously in terms of size, scale and complexity. I think, again, in terms of not being overly risk averse, we do try to match proportionately the administration, the checking, and the paperwork to the risk, both in terms of the sum of money involved and the nature of the organisation that we’re funding. So, it won’t be exactly the same set of paperwork for every type of grant. It will vary. I hope, actually, that, in some cases, if it’s a small amount of grant to a reliable organisation, we do keep the paperwork to a minimum.”<sup>121</sup>

## **Ein barn ni**

**Wrth fynd ar drywydd ei argymhelliad yn ei waith craffu ar gyfrifon 2013-14, ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella cyflwyniad ei chyfrifon i sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy yn rhwydd ac yn hwylus i’r cyhoedd. Mae’r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru heb wneud unrhyw newidiadau mawr eto yng nghyflwyniad ei chyfrifon ond mae’n nodi ei bwriad i wireddu ei hymrwymiad i wneud hynny. Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar symleiddio’i chyfrifon er mwyn gwireddu ei hymrwymiad i lunio set symlach o gyfrifon gyda naratif cryfach erbyn y cyfnod cyfrifyddu nesaf. Mae’r Pwyllgor yn disgwyl gweld newidiadau arwyddocaol yn deillio o brosiect mireinio Llywodraeth Cymru ac mae’n argymhell bod angen mwy o fanylion, mewn Atodiadau os oes angen hynny, yn y cyfrifon ynghylch dadansoddi gwariant ac y dylai’r cyfrifon yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion am y grantiau a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan wariant rhaglenni.**

**O ran gwella hwylustod i’r cyhoedd a thryloywder cyfrifon Llywodraeth Cymru, mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu dolenni at ei dogfennau cyfrifon ar-lein sy’n dangos llif yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn i’r cyhoedd allu ‘dilyn’ yr arian a gweld sut mae Llywodraeth Cymru’n dyrannu cyllid.**

**Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynaliadwyedd ac, er bod y rhan fwyaf o’r dangosyddion a**

---

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 6 Hydref 2015



**gynhwysir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru'n dangos gostyngiad parhaus mewn allyriadau carbon neu dunelli o wastraff, heblaw'r gwmp fawr o ran defnyddio trydan, mae'n nodi nad yw'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ffigurau gwastraff yn y cyfrifon yn rhesymol ond rydym yn credu y dylai gwaith ychwanegol gael ei wneud i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o leihau'r defnydd ar ynni ar draws ei hystâd ac ystyried opsiynau arloesol i gyflawni hyn.**

**Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli prosiectau ac yn benodol materion ynghylch y prosesau sydd ganddi ar gyfer adolygu contractau cyn i ddyn nhw ddod i ben er mwyn sicrhau mai'r opsiynau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian sy'n cael eu dewis. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ffrwd waith o dan y rhaglen 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol' i nodi materion o fewn prosesau caffael Llywodraeth Cymru ac i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Er hynny, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y gwaith hwn yn parhau ac yn faes lle mae angen gwelliant. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am gynnydd y gwaith hwn.**

**Ystyriodd y Pwyllgor ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau ac mae'n credu bod enghreifftiau o hyd o achosion lle mae angen gwella prosesau rheoli grantiau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro ymagwedd Llywodraeth Cymru at reoli grantiau.**

## Atodiad A - Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma:

[www.senedd.cynulliad.cymru/mgCommitteeDetails.aspx?ID=230](http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgCommitteeDetails.aspx?ID=230)

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
<i>22 Medi 2015</i>	
David Michael	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Colin John	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Avril Jones	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
David Anderson	Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Neil Wicks	Amgueddfa Genedlaethol Cymru
<i>29 Medi 2015</i>	
David Melding AC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Claire Clancy	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Nicola Callow	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Sarah Powell	Chwaraeon Cymru
Peter Curran	Chwaraeon Cymru
<i>6 Hydref 2015</i>	
Sir Derek Jones	Llywodraeth Cymru
Gawain Evans	Llywodraeth Cymru
Peter Kennedy	Llywodraeth Cymru
David Richards	Llywodraeth Cymru